WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2017 – **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 276A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Gabrielle Smith a Gareth Lewis.

# Cynnwys

Mae’r Ymddiriedolaeth yn gwella agweddau ar ei threfniadau llywodraethu a chynllunio ymhellach ond nid yw’n cyflwyno adroddiadau ar ei pherfformiad yn effeithiol nac yn gweithredu rhai trefniadau allweddol eto

Adroddiad cryno

Cyflwyniad a chefndir 4

Canfyddiadau allweddol 4

Argymhellion 13

Adroddiad manwl

Mae’r trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn gweithio’n dda ond er bod manylion adroddiadau cyllid i’r Bwrdd wedi gwella, cyfyngedig yw’r wybodaeth am arbedion a nodwyd i’w hailfuddsoddi 16

Mae’r Bwrdd yn gweithio’n effeithiol ac yn adeiladu ar waith i wella’r trefniadau llywodraethu ond mae rhagor i’w wneud i ymestyn gwaith craffu ar berfformiad mewn meysydd allweddol 24

Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu weithredol i lywio ei strategaeth hirdymor, mae’n gwella’r ffordd y mae’n cynllunio’r gweithlu ac mae ganddi raglen wybodeg uchelgeisiol i gefnogi’r broses o roi ei chynllun tymor canolig integredig ar waith ond nid yw wedi cytuno ar rai trefniadau allweddol na’u gweithredu eto 39

Atodiadau

Atodiad 1 – Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion asesiad strwythuredig 2017 45

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad a chefndir

1 Mae'r gwaith a wnawn fel rhan o'r asesiad strwythuredig yn helpu i lywio barn yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i hadnoddau. Canfu ein gwaith yn 2016 fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i atgyfnerthu ei threfniadau llywodraethu corfforaethol a'i bod yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol. Roedd y trefniadau rheoli ariannol yn gweithio'n dda ond gellid gwella adroddiadau'r Bwrdd ar berfformiad ariannol yn erbyn y strategaeth gyllidebol a cherrig milltir y cynllun tymor canolig integredig.

2 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gwaith a wnaed gennym fel rhan o asesiad strwythuredig 2017 wedi adolygu agweddau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, ac, yn arbennig, y cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Er mwyn cydnabod y pwysau ariannol cynyddol a wynebir gan lawer o gyrff y GIG a'r her o gyflawni'r dyletswyddau i fantoli'r gyllideb a amlinellwyd yn Neddf Cyllid GIG Cymru (Cymru) 2014, rydym hefyd wedi gwneud gwaith dilynol ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth i gynllunio a chyflawni arbedion ariannol.

3 Rydym hefyd wedi defnyddio gwaith asesu strwythuredig eleni i gasglu tystiolaeth i ategu sylwadau ar gyfer Cymru gyfan. Nodir sut mae cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus yn gweithio tuag at fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyflwynir adroddiad ar wahân yn cynnwys y sylwadau hyn ddechrau 2018.

4 Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau ac arsylwadau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgorau, ynghyd ag adolygiadau o ddogfennau perthnasol a data perfformiad a chyllid.

## Canfyddiadau allweddol

5 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella agweddau ar ei threfniadau llywodraethu a chynllunio ymhellach ond nid yw'n cyflwyno adroddiadau ar ei pherfformiad yn effeithiol nac yn gweithredu rhai trefniadau allweddol eto. Mae'n rhagweithiol o ran asesu effeithiolrwydd sefydliadol ehangach. Mae'n ceisio gwella ac ymgorffori trefniadau ar gyfer llywodraethu da ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd er mwyn llywio cynlluniau tymor hwy. Mae adroddiadau ariannol wedi gwella ond nid yw adroddiadau ar berfformiad yn rhychwantu holl fusnes yr Ymddiriedolaeth ond anaml y cyflwynir adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu blynyddol ac mae rhai trefniadau allweddol ar gyfer datblygiadau gwybodeg eto i'w rhoi ar waith. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod.

## Cynllunio a rheoli ariannol

6 Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn gweithio'n dda ond er bod manylion adroddiadau cyllid i'r Bwrdd wedi gwella, cyfyngedig yw'r wybodaeth am arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei harbedion ariannol yn gyson ac yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn;
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei threfniadau cynllunio ariannol, ond gall heriau godi o ran cyflawni rhai cynlluniau arbedion pan fyddant yn golygu tynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliadau eraill;
- erys trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwaith monitro gweithredol a throsolwg o'r perfformiad ariannol a chynlluniau arbedion yn gadarn; ond er bod gwybodaeth ar lefel y Bwrdd yn fanylach, cyfyngedig yw'r wybodaeth am ddefnyddio arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi; ac
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ar drefniadau cynllunio a rheoli ariannol.

### Perfformiad ariannol

7 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei harbedion ariannol yn gyson ac yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac ar ddiwedd 2016-17, gwnaeth warged bach (£16,000). Hefyd, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros y tair blynedd rhwng 2014-15 a 2016-17. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth arbedion gwerth £1.848 miliwn a nodwyd yn strategaeth gyllidebol 2016-17 ac mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni'r holl arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2017-18. Ar ddiwedd mis Hydref 2017, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni 55% o'r arbedion a gynlluniwyd ac a nodwyd yn y strategaeth gyllidebol ar gyfer 2017-18, sef ychydig yn llai na'r hyn a gynlluniwyd (58%) ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

### Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol

8 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei threfniadau cynllunio ariannol, ond gall heriau godi o ran cyflawni rhai cynlluniau arbedion pan fyddant yn golygu tynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliadau eraill. Erys y broses gynllunio ariannol yn rhan annatod o gylch cynllunio'r Ymddiriedolaeth ac mae'r broses o bennu'r gyllideb heb ei newid i raddau helaeth. Mae'n ofynnol i bob isadran wneud 1% o arbedion i ymdrin â phwysau costau a gwelliannau cost cyffredinol. O ystyried maint yr arbedion ar gyflogau yn 2016-17, rhoddodd yr Ymddiriedolaeth weithdrefn ar waith i reoli niferoedd staff er mwyn dileu swyddi a fu'n wag ers amser o niferoedd staff sylfaenol. Unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i gyllidebau is-adrannol a rhestrau staff is-adrannol gael eu

cymeradwyo gan y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid a'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol.

9 Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn nad oes modd bob amser ymgysylltu'n llawn â chyrff allanol ynglŷn â dadfuddsoddi. Mae nifer o gynlluniau arbedion ar gyfer 2017-18 yn dibynnu ar dynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliadau allanol. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gofynnwyd i ddeiliaid cyllideb gadarnhau eu bod wedi trafod ac wedi cytuno ar lefel y cyllid i'w leihau neu ei dynnu'n ôl, neu fod cynlluniau amgen wedi cael eu rhoi ar waith.

## Monitro arbedion ariannol

10 Erys trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwaith monitro gweithredol a throsolwg o'r perfformiad ariannol a chynlluniau arbedion yn gadarn; ond er bod gwybodaeth ar lefel y Bwrdd yn fanylach, cyfyngedig yw'r wybodaeth am ddefnyddio arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi. Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer craffu ar berfformiad ariannol, gan gynnwys cynlluniau arbedion, yn sefydledig, gyda'r tîm cyllid yn monitro cyllidebau'n fanwl ac yn olrhain arbedion o fis i fis. Mae'r tîm cyllid wedi gwella'r cofnod olrhain ar gyfer monitro'r broses o gyflawni arbedion a chaiff y rhesymau dros lithriant eu cofnodi mewn ffordd fwy systematig. Mae'r gwaith craffu cynyddol yn helpu i dargedu cymorth yn gynt a sicrhau bod cynlluniau arbedion amgen yn cael eu rhoi ar waith.

11 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella fformat a chynnwys adroddiadau cyllid i'r Bwrdd, gan ei gwneud hi'n haws olrhain perfformiad yn erbyn y strategaeth gyllidebol. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau cyllid yn hepgor unrhyw naratif ynglŷn â chyflawni, ai peidio, gynlluniau ailfuddsoddi a ariennir o arbedion, sef cyfanswm o fwy na £2 filiwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ar gynllunio a rheoli ariannol

12 Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym yn 2016 ynglŷn â chynllunio ac adrodd ariannol. Awgryma strategaeth gyllidebol 2017-18 fod llai o bwyslais ar greu cronfa fuddsoddi wrth gefn o arbedion ond serch hynny, mae cynigion ar gyfer ailfuddsoddi yn dal i fynd drwy broses graffu fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Caiff natur y risgiau sy'n gysylltiedig â chynllun arbedion unigol eu cofnodi a'u trafod fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a'r broses graffu. Yn y dyfodol, pan fydd deiliaid cyllideb yn dibynnu ar gyflawni arbedion drwy dynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliadau allanol neu ei leihau, bydd angen iddynt roi tystiolaeth yn y cyfarfodydd cychwynnol sy'n craffu ar y gyllideb fod trafodaethau â sefydliadau allanol wedi'u cynnal cyn bod cyllidebau wedi'u pennu'n derfynol.

13 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella cynnwys adroddiadau cyllid i'r Bwrdd, gan roi gwybodaeth fanylach am gyflawni arbedion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â llithriant; crynodeb o'r risgiau i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn; manylion am y gwariant cronnus yn erbyn y cynllun cyfalaf; a'r rhesymau dros danwariant neu orwariant ar gyllidebau cyfarwyddiaethau gydag arwydd o'r effaith ar wasanaethau a ddarperir neu eu hansawdd.

## Llywodraethu a sicrwydd

14 Mae'r Bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac yn adeiladu ar waith i wella'r trefniadau llywodraethu ond mae rhagor i'w wneud i ymestyn gwaith craffu ar berfformiad mewn meysydd allweddol Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- mae gwelliannau parhaus i drefniadau rheoli risg yn dechrau cael effaith;
- mae'r Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ac mae'n parhau'n ymrwymedig i effeithiolrwydd sefydliadol a dysgu parhaus ond mae'r angen i lenwi swyddi anweithredol gwag yn mynd yn ddybryd;
- mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella rheolaethau mewnol ond nid yw'n gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol;
- mae'r Ymddiriedolaeth yn atgyfnerthu ei threfniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth ond ymddengys bod yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu yn gyfyngedig ac nid yw rôl y Swyddog Diogelu Data o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol wedi'i nodi yn y polisi newydd; ac
- mae adroddiadau ar berfformiad yn gwella ond nid yw'r Bwrdd yn craffu ar bob rhan o fusnes yr Ymddiriedolaeth ac anaml y cyflwynir adroddiadau yn erbyn y cynllun gweithredu.

### Rheoli risg a sicrwydd i'r Bwrdd

15 Mae gwelliannau parhaus i drefniadau rheoli risg yn dechrau cael effaith. Cymeradwywyd y polisi a'r gweithdrefnau rheoli risg yn gynharach yn ystod y flwyddyn. Mae rolau a chyfrifoldebau staff a'r Bwrdd mewn perthynas â chraffu ar y risgiau ar lefel strategol, corfforaethol, cyfarwyddiaeth ac isadran a gofnodwyd ar y cofrestrau risg, a'u goruchwylio, wedi'u nodi'n glir. Er nad yw hyfforddiant ar reoli risg yn orfodol, mae'r Bwrdd yn disgwyl i staff sydd â chyfrifoldebau penodol gael hyfforddiant wyneb yn wyneb. Yn y cyfamser, mae canllaw i reoli risg wrthi'n cael ei ddatblygu i ddechreuwyr newydd ynghyd â chyfres o 'gwestiynau cyffredin'.

16 Mae'r broses o reoli risg yn cael ei hymgorffori yn y sefydliad yn fwy effeithiol ac mae ansawdd cofrestrau risg cyfarwyddiaethau yn gwella. Canfu adolygiad yr Archwilwyr Mewnol o drefniadau rheoli risg eu bod yn rhoi sicrwydd rhesymol, a'i bod yn amlwg bod risgiau yn cael eu huwchgyfeirio a'u daduwchgyfeirio yn unol â gweithdrefnau rheoli risg. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus bod ei threfniadau rheoli risg wedi aeddfedu ond bydd yn ceisio cadarnhau hyn. Mae'n bwriadu

ymgymryd â gwaith i asesu aeddfedrwydd ei system rheoli risg yn erbyn y safon rheoli risg ryngwladol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

17 Caiff cyfrifoldeb am oruchwylio a chraffu ar risgiau strategol a nodir yn fframwaith sicrwydd y Bwrdd ei ddirprwyo i bwyllgor priodol y Bwrdd. Fodd bynnag, mae ein harsylwadau yng nghyfarfodydd pwyllgorau yn awgrymu mai ychydig o amser a neilltuir ar gyfer y dasg hon mewn agendâu pwyllgor fel arfer. Cydnabu'r Bwrdd y lefel o graffu yr oedd ei hangen i wella ac mae bellach yn ystyried fframwaith sicrwydd y Bwrdd ochr yn ochr â'r adroddiadau perfformiad a chyllid, o ystyried bod llawer o'r camau lliniaru hefyd wedi'u cofnodi yn yr adroddiadau hyn. Yn y cyfamser, mae trafodaethau i bennu awydd i fentro y sefydliad hefyd yn mynd rhagddynt.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

18 Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ac mae'n parhau'n ymrwymedig i effeithiolrwydd sefydliadol a dysgu parhaus ond mae'r angen i lenwi swyddi anweithredol gwag yn mynd yn ddybryd. Mae rhaglen waith yn mynd rhagddi i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella a nodir gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol fel rhan o'u hadolygiad blynyddol o effeithiolrwydd. Cynhaliodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ei asesiad blynyddol o effeithiolrwydd ym mis Tachwedd 2017; ar ôl trafod y canfyddiadau, mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella. Mae cynlluniau ar waith i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol asesu ei effeithiolrwydd ar ddechrau 2018.

19 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i deilwra rhaglenni ymgynefino ar gyfer swyddogion anweithredol newydd a chaiff sesiynau ar bynciau penodol a ddatblygwyd ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio Llywodraethu Corfforaethol eu hymgorffori yn y rhaglen ymgynefino ehangach. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ei nifer lawn o aelodau anweithredol o hyd, o ystyried na lwyddodd i lenwi dwy swydd wag ar gyfer swyddogion anweithredol. Mae trafodaethau rhwng yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddynt ynglŷn â denu ymgeiswyr sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i rolau anweithredol. Ar nodyn cadarnhaol, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i hwyluso presenoldeb ail gynrychiolydd o'r staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau.

20 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i asesu effeithiolrwydd sefydliadol ehangach. Yn 2016, comisiynodd adolygiad allanol o'r Is-adran Sgrinio i edrych yn benodol ar ei strwythur a'i threfniadaeth. Mae trefniadau rheoli prosiect ar waith i fynd i'r afael â'r 20 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad. Yn y cyfamser, mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi bod yr adolygiadau gan gymheiriaid gwadd a gynhaliwyd gan Gymdeithas Ryngwladol y Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn gadarnhaol ar y cyfan a disgwylir i'r adroddiad ffurfiol gael ei gyhoeddi ar ddechrau 2018.

## Rheolaethau mewnol

21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella rheolaethau mewnol ond nid yw'n gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae Gweithdrefn Rheoli Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Eraill ar waith, sy'n rhoi sicrwydd rhesymol, yn ôl canfyddiad yr Archwilwyr Mewnol. Caiff Cofrestr o Ddogfennau Polisi a Rheoli Ysgrifenedig ei diweddaru'n barhaus ac mae'n cofnodi pob polisi a dogfen reoli a gymeradwywyd i'r sefydliad cyfan. Caiff polisïau a gweithdrefnau sydd wedi dod i ben eu hasesu o ran risg gan y swyddog polisi arweiniol a enwyd a chaiff y canlyniad ei rannu â'r pwyllgor cymeradwyo priodol.

22 Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ddull sefydledig o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Caiff cynnydd yn erbyn argymhellion ei ystyried ym mhob cyfarfod a chaiff cyflymder y cynnydd ei herio. Mae swyddogion perthnasol yn dod i'r pwyllgor fel rhan o'r her hon, yn enwedig pan fydd camau'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd a lle mae adroddiadau archwilio ond yn rhoi sicrwydd cyfyngedig. Gwnaed gwelliannau i'r cofnod olrhain yn gynharach yn ystod y flwyddyn yn sgil adolygiad o fformat, ansawdd ac amseroldeb y wybodaeth a gyflwynir. Mae adroddiad clawr bellach yn tynnu sylw at newidiadau sylweddol neu benderfyniadau y gofynnir i'r Pwyllgor eu gwneud.

23 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau drwy baru data ar draws sefydliadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfranogwr gorfodol. Ym mis Ionawr 2017, cafodd 1,819 o achosion o baru data, yr ystyriwyd bod 121 ohonynt yn rhai risg uchel. Nid adolygodd yr Ymddiriedolaeth unrhyw un o'r achosion o baru data tan fis Rhagfyr, ryw ddeg mis ar ôl cael y data. Mae'n destun cryn bryder bod yr Ymddiriedolaeth wedi methu â gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol fel rhan o'i threfniadau i atal a chanfod twyll. Cododd problemau tebyg yn ystod ymarfer paru data Menter Twyll Genedlaethol 2014-15 pan fethodd yr Ymddiriedolaeth â chwblhau pob adolygiad o'r achosion o baru data a argymhellwyd yn amserol.

## Llywodraethu gwybodaeth

24 Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth yn cael eu hatgyfnerthu ond ymddengys bod yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu yn gyfyngedig ac nid yw rôl y Swyddog Diogelu Data o dan y Rheoliadau Diogelu Cyffredinol wedi'i disgrifio eto. Caiff y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ei gyflwyno o fis Mai 2018 a bu hyn yn sbardun i ddiwygio a symleiddio polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth a nodi rolau a chyfrifoldebau yn glir. Fodd bynnag, nid yw'r Swyddog Diogelu Data, sy'n ofynnol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, wedi'i ddisgrifio eto. Yn y cyfamser, mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth yn gwella ond erys islaw lefelau hanesyddol.

25 Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth asesu ei chydymffurfiaeth ag Egwyddorion Caldicott bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth adnabyddadwy cleifion

yn cael ei diogelu a'i bod ond yn cael ei defnyddio pan fo'n briodol gwneud hynny. Dengys hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth gryn welliant dros y saith mlynedd, ond dengys yr asesiad mwyaf diweddar y gallai gwybodaeth a roddir yn erbyn rhai safonau roi darlun mwy realistig. Mae'n bwysig bod hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn gadarn am ei fod yn cael ei gyflwyno gyda phob cais i Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd yr Awdurdod Ymchwil Iechyd i gael cymeradwyaeth i ddefnyddio gwybodaeth adnabyddadwy cleifion heb gydsyniad, o dan Adran 251 o Ddeddf y GIG 2006.

26 Mae'n bwysig bod yr Ymddiriedolaeth yn deall pa wybodaeth a ddelir ganddi er mwyn ei diogelu ac ymwela ar ei photensial. Nid yw pob llif gwybodaeth wedi cael ei fapio ac mae'r gwaith ar y Gofrestr Asedau Gwybodaeth wedi cymryd cryn amser. Hyd yma, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dibynnu ar bolisi diogelwch gwybodaeth etifeddol tra'n aros i bolisi i Gymru gyfan gael ei ddatblygu a'i ryddhau. Cafodd Polisi Diogelwch Gwybodaeth newydd ei gymeradwyo yn dilyn diwygiadau gan y Prif Swyddog Risg a'r Pennaeth Gwybodeg er mwyn cydnabod y gydberthynas rhwng y ddwy ddisgyblaeth. Yn y cyfamser, caiff risgiau diogelwch gwybodaeth eu rheoli o fewn y Polisi Rheoli Risg cyffredinol.

27 Mae trefniadau ar gyfer trosolwg o lywodraethu gwybodaeth ar waith yn strategol ac yn weithredol. Ymddengys bod yr amser sydd ar gael i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella graffu ar faterion llywodraethu gwybodaeth yn gyfyngedig o gymharu â'r amser a oedd ar gael cyn diddymu'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi i hunanasesiad diweddar y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ganfod bod ei drosolwg o lywodraethu gwybodaeth wedi gwella ochr yn ochr â gwelliannau ym manylder ac ansawdd y wybodaeth a roddir iddo.

## Adrodd ar berfformiad

28 Mae adroddiadau ar berfformiad yn gwella ond nid yw'r Bwrdd yn craffu ar bob rhan o fusnes yr Ymddiriedolaeth ac anaml y cyflwynir adroddiadau yn erbyn y cynllun gweithredu. Mae trefniadau ar gyfer monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau ar ddangosyddion allweddol o ran gwasanaethau, ansawdd ac adnoddau wedi'u nodi'n glir yng nghynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet am y drydedd flwyddyn yn olynol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae nifer y dangosyddion perfformiad yn y Fframwaith Cyflawni wedi cynyddu ond nid ydynt yn cynnwys mesurau o berfformiad sy'n rhychwantu holl fusnes yr Ymddiriedolaeth, megis Gwella Ansawdd/1000 o Fywydau y GIG, gwybodaeth iechyd a rhaglenni gwella iechyd cenedlaethol fel y '1000 diwrnod cyntaf'. Mae adroddiadau ar berfformiad yn tynnu sylw'r Bwrdd at feysydd lle y ceir tangyflawni a dangosyddion wedi'u graddio drwy ddefnyddio'r system coch, oren, gwyrdd i ddynodi amrywiant yn erbyn y targed.

29 Dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn feirniadol o'r diffyg gwybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd mewn perthynas â chyflawni'r cerrig milltir a nodir yn y cynllun tymor canolig integredig a'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun gweithredu blynyddol. Nid yw adroddiadau ar gynnydd ac effaith gyffredinol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd eto, heblaw am nifer yr amcanion a gyflawnwyd, ond mae adroddiadau ar gynnydd yn erbyn cynllun gweithredu 2017-18 wedi cael eu cyflwyno ddwywaith (mis Gorffennaf 2017 a mis Ionawr 2018) er gwaethaf y bwriad i gyflwyno adroddiad bob chwarter.

30 Mae storïau defnyddwyr gwasanaethau yn dod yn nodwedd reolaidd o gyfarfodydd y Bwrdd a chyhoeddwyd crynodeb o brofiad defnyddwyr gwasanaethau yn ddiweddar. Cytunodd y Bwrdd ar ddull mwy strwythuredig o nodi storïau sy'n adlewyrchu amrywiaeth gwaith y sefydliad gyda defnyddwyr gwasanaethau, cymunedau lleol a phoblogaethau cyfan. Yn y cyfamser, daeth gwaith i ddatblygu adroddiad ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau i ben pan gyflwynwyd adroddiad ar brofiad i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ei ystyried. Hefyd, cafodd crynodeb byr o wybodaeth am brofiadau ei gynnwys am y tro cyntaf yn yr adroddiad ar berfformiad ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2017.

## Ffactorau eraill sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

31 Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu weithredol i lywio ei strategaeth hirdymor, mae'n gwella'r ffordd y mae'n cynllunio'r gweithlu ac mae ganddi raglen wybodeg uchelgeisiol i gefnogi'r broses o gyflawni ei chynllun tymor canolig integredig ond nid yw wedi cytuno ar rai trefniadau allweddol eto na'u gweithredu. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn isod.

### Cynllunio a rheoli'r gweithlu

32 Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio gwella'r ffordd y mae'n cynllunio'r gweithlu ac mae newidiadau i fwrdd arddangos datblygu pobl a datblygu sefydliadol yn helpu i wella'r broses graffu. Mae trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau'r gweithlu ar lefel isadran a chyfarwyddiaeth yn cael eu hatgyfnerthu ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth gweithlu iechyd cyhoeddus hirdymor. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella cydymffurfiaeth ag arfarniadau blynyddol ac adolygiadau perfformiad ar gyfer staff nad ydynt yn staff meddygol na deintyddol, sy'n 71% ar hyn o bryd. Ceir cydymffurfiaeth o 100% ar gyfer arfarnu ac ailddilysu meddygol/deintyddol. Roedd cydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant statudol a gorfodol yn 82% erbyn diwedd mis Tachwedd 2017 ac mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y bydd yn cyrraedd targed GIG Cymru (85%) erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

33 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau breision i wella ansawdd a fformat y wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, sy'n helpu i wella prosesau craffu a sicrwydd. Mae bwrdd arddangos y gweithlu yn rhoi amrywiaeth eang o fetrigau, crynodeb o berfformiad a chamau adferol ar gyfer gwella. Awgryma ein dadansoddiad o nifer o fetrigau'r gweithlu fod yr Ymddiriedolaeth yn gwario llai ar staff asiantaeth na chyrff iechyd eraill ond bod gwariant yn cynyddu. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn perfformio'n dda o ran absenoldeb oherwydd salwch o'i chymharu â byrddau iechyd eraill, mae'r lefelau yn uwch na tharged y sefydliad. Yr Ymddiriedolaeth sydd â'r lefel uchaf o drosiant staff ond un ymhlith cyrff y GIG yng Nghymru, sef 11.9%, ac mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio ei ddeall yn well, a bu gwelliannau sylweddol o ran yr amser a gymerir i recriwtio staff, o 64.7 diwrnod ar gyfartaledd yn 2016-17 i 39 diwrnod ym mis Awst 2017.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

34 Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu weithredol i lywio'r broses o ddatblygu ei strategaeth hirdymor ac mae'n dal yn ymrwymedig i wella ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth yn allweddol i'w helpu i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol. Nododd yr Ymddiriedolaeth y rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol yr oedd yn bwysig ymgysylltu â hwy fel rhan o'r broses o ddatblygu ei strategaeth hirdymor.Datblygwyd rhaglen ymgysylltu ar gyfer rhanddeiliaid allanol a mewnol, gan gynnwys y cyhoedd. Mae'r wybodaeth o'r gweithgareddau lluosog hyn yn helpu i lywio trafodaethau'r Bwrdd a'r uwch dîm arwain ar y strategaeth hirdymor.

35 Yn 2016, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o'i threfniadau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd. Canfu'r adolygiad fod diffyg eglurder, cysondeb a chydlyniant o ran arfer ymgysylltu, a effeithiodd ar ymgysylltu ag unigolion a chymunedau. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio mynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella, gan ddechrau drwy ddatblygu dull ymgysylltu cyffredin, a rannwyd â'r Bwrdd yn ddiweddar.

## TGCh a'r defnydd o dechnoleg

36 Bwriedir cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o ddatblygiadau gwybodeg er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni'r cynllun tymor canolig integredig ond nid yw'r strategaeth ddigidol na'r trefniadau rheoli rhaglen wedi cael eu cymeradwyo na'u gweithredu eto. Er mwyn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG a hwylusir yn ddigidol, datblygodd pob un o gyrff y GIG, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth, raglen amlinellol strategol (RhAS) yn nodi safbwynt pum mlynedd ar ofynion buddsoddi ar gyfer technoleg a newidiadau i wasanaethau a hwylusir yn ddigidol. Mae gofynion cyfalaf a refeniw dangosol yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cyfanswm o £16.8 miliwn, sy'n golygu y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu'r rhaglen waith arfaethedig a nodir yn y RhAS. Yn y cyfamser, mae'r gofrestr risg llywodraethu gwybodaeth a TG yn tynnu sylw at y risgiau na fydd yn gallu cyflawni'r rhaglen o ddatblygiadau gwybodeg a gynlluniwyd.

37 Caiff meysydd cyflawni craidd a nodir yn y RhAS eu hadlewyrchu yng nghynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth a’i strategaeth ddigidol ddrafft. Un o’r cynigion a adlewyrchwyd yn y dogfennau hyn yw sefydlu Bwrdd Trawsnewid Digidol a arweinir gan wybodegwr clinigol i gytuno ar ddatblygiadau a gwasanaethau ym maes gwybodeg a’u blaenoriaethu, rhoi trosolwg o’r broses gyflawni, yn ogystal â chyfrifoldebau penodol am asesu goblygiadau seiberddiogelwch i ddatblygiadau gwybodeg. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw derfynau amser diffiniol na chamau gweithredu y cytunwyd arnynt i weithredu ar y cynnig hwn.

## Argymhellion

38 Nodir yr argymhellion sy’n deillio o asesiad strwythuredig 2017 yn Arddangosyn 1. Bydd hefyd angen i’r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar weithredu ar unrhyw argymhellion blaenorol nas cwblhawyd eto.

39 Caiff ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth yn nodi sut mae’n bwriadu ymateb i’r argymhellion hyn ei gynnwys yn Atodiad 1.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2017

| Argymhellion 2017 | |
|---|---|
| **Cyflwyno adroddiadau ariannol** | |
| A1 | Nid yw adroddiadau cyllid i'r Bwrdd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch a yw blaenoriaethu ailfuddsoddi a ariennir drwy arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn y strategaeth gyllidebol wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus. **Felly, dylai'r Ymddiriedolaeth gynnwys gwybodaeth am berfformiad cynlluniau ailfuddsoddi drwy arbedion effeithlonrwydd yn ei hadroddiadau i'r Bwrdd.** |
| **Rheolaethau mewnol** | |
| A2 | Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfranogwr gorfodol yn ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol ond nid yw wedi gwneud defnydd effeithiol o'r achosion o baru data a ddarparwyd ar gyfer 2016-17. Mae ymarfer paru data Menter Twyll Genedlaethol 2018-19 yn dechrau ym mis Hydref 2018 pryd y **dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod yr achosion o baru data a ddaw o'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu a, lle y bo angen, yr ymchwilir iddynt yn amserol.** |
| **Llywodraethu gwybodaeth** | |
| A3 | Mae Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE, a ddaw i rym o 18 Mai 2018, yn gwneud rôl y Swyddog Diogelu Data yn ofynnol. Fodd bynnag, nid yw Polisi Llywodraethu Gwybodaeth newydd yr Ymddiriedolaeth yn disgrifio rôl y Swyddog Diogelu Data, na'i safle o fewn strwythurau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth. **Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi'n glir rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Diogelu Data a'r llinellau atebolrwydd sy'n gysylltiedig â'r rôl.** |
| **Diogelwch gwybodaeth** | |
| A4 | Cwblhaodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol archwiliad o drefniadau seiberddiogelwch yr Ymddiriedolaeth ar yr un pryd ag yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth newydd a'r gweithdrefnau ategol. **Dylai'r Ymddiriedolaeth gymharu canfyddiadau'r Archwilwyr Mewnol â'r polisi newydd a'r gweithdrefnau ategol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau.** |
| **Adrodd ar berfformiad** | |
| A5 | Nid yw'r Fframwaith Cyflawni yn rhychwantu holl fusnes yr Ymddiriedolaeth. **Felly, dylai'r Ymddiriedolaeth gytuno ar fesurau rhesymol ar gyfer y rhannau hynny o'r busnes nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y Fframwaith Cyflawni, megis Gwella Ansawdd/1000 o Fywydau y GIG, gwybodaeth iechyd a rhaglenni gwella iechyd cenedlaethol fel 'y 1000 diwrnod cyntaf', er mwyn galluogi'r Bwrdd i graffu arnynt, a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol â hynny.** |

| Argymhellion 2017 |
| --- |
| **Adrodd ar berfformiad**<br>A6 Mae'r Fframwaith Cyflawni yn nodi y bydd adroddiadau bob chwarter ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu blynyddol ond dim ond dau adroddiad cyhoeddus a gafwyd. Yn y cyfamser, mae Canllawiau Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-2020 yn nodi y dylai byrddau gael asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y cynllun tymor canolig integredig mewn sesiwn gyhoeddus o leiaf ddwywaith y flwyddyn. **Felly, dylai'r Ymddiriedolaeth:**<br>**a. nodi'n eglur pa mor aml y bydd yn cyhoeddi adroddiadau yn erbyn y Fframwaith Cyflawni; a**<br>b. **pharatoi adroddiad yn nodi'r cynnydd cyffredinol yn erbyn cerrig milltir y cynllun tymor canolig integredig a'r effaith** |
| **Gwybodeg**<br>A7 Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau ei Strategaeth Ddigidol ar gyfer datblygu'r cynigion a nodir yn y cynllun tymor canolig integredig a'r Rhaglen Amlinellol Strategol yn derfynol eto, gan gynnwys rhoi'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol ar gyfer trosolwg a chraffu ar waith. Yn y cyfamser, barnwyd bod argymhellion o'n harchwiliad blaenorol o allu a strwythur TG yr Ymddiriedolaeth yn gyflawn, a all fod wedi bod yn gynamserol o ystyried nad yw'r strategaeth wedi'i chwblhau'n derfynol eto. **Dylai'r Ymddiriedolaeth:**<br>**a. fynd ati i gwblhau'r Strategaeth Ddigidol yn derfynol;**<br>**b. nodi swyddog arweiniol clinigol ar gyfer datblygiadau gwybodeg;**<br>**c. datblygu gwasanaethau hyfforddiant TG effeithiol; a**<br>**d. sefydlu'r Bwrdd Trawsnewid Digidol arfaethedig a chytuno ar ei gylch gorchwyl.** |

# Adroddiad manwl

## Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn gweithio'n dda ond er bod manylion adroddiadau cyllid i'r Bwrdd wedi gwella, cyfyngedig yw'r wybodaeth am arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi

40 Yn ogystal â gwneud sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, gwnaethom waith dilynol ar ein gwaith yn 2016, a edrychodd ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer nodi a monitro arbedion ac ailfuddsoddiadau. Er bod archwiliad manwl o gynlluniau arbedion unigol y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, gwnaethom asesu p'un a gyflawnwyd cynlluniau arbedion unigol ar gyfer 2016-17. Gwnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei harbedion ariannol yn gyson ac yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn

41 Unwaith eto, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2016-17 a gwnaeth warged bach (£16,000). Hefyd, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros y tair blynedd rhwng 2014-15 a 2016-17. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni arbedion yn gyson ac yn 2016-17 cyflawnodd y rhan fwyaf (91%) o'r arbedion gwerth £1.848 a gynlluniwyd ac a nodwyd yn y strategaeth gyllidebol. Cafodd y diffyg ei gwmpasu gan danwariant yn y cyfarwyddiaethau dan sylw, yn bennaf tanwariant ar gyflogau staff o ganlyniad i'r trosiant staff uwch na'r disgwyl ac oedi cyn recriwtio.

42 Datblygodd deiliaid cyllideb 45 o gynlluniau arbedion yn 2016-17 er mwyn cyflawni'r arbedion gwerth £1.848 miliwn. Fel rhan o'n gwaith archwilio, ystyriwyd p'un a lwyddodd y cynlluniau hyn i gyflawni'r arbedion hyn a gynlluniwyd. Canfuom fod nifer o'r cynlluniau wedi cael eu diwygio neu eu disodli yn ystod y flwyddyn a bod 39 o'r 45 o gynlluniau arbedion wedi bod yn llwyddiannus, gan gyflawni arbedion gwerth £1.687 miliwn i gyd. Roedd dros hanner (£954,000) o'r arbedion hyn yn ymwneud â chyflogau o ganlyniad i'r lleihad mewn niferoedd staff, swyddi gwag a diswyddo gwirfoddol.

43 Methodd chwe chynllun, gwerth £159,000 i gyd (8% o gyfanswm yr arbedion a nodwyd yn wreiddiol) â chyflawni unrhyw arbedion a gynlluniwyd ac o'r chwe chynllun hyn, methodd un â nodi lle y gellid gwneud arbedion. Nid oedd gan eraill y personél allweddol i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni arbedion ac arweiniodd gweithgarwch cynyddol, drifft cynyddrannol ar gyflogau a newidiadau i strwythurau is-adrannol at gostau ychwanegol a wrthbwysodd unrhyw arbedion a gynlluniwyd.

44 Dengys Arddangos 2 fod pob cyfarwyddiaeth heblaw am y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus a'r gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant wedi cyflawni'r arbedion a gynlluniwyd. O gyfanswm yr arbedion a gyflawnwyd gan y 39 o gynlluniau, roedd 83% o'r arbedion yn rhai cylchol.

Arddangosyn 2: Dadansoddiad o'r arbedion a gynlluniwyd a'r arbedion a gyflawnwyd yn ôl cyfarwyddiaeth yn ystod 2016-17

| Cyfarwyddiaethau/sefydliad | Cynllun-iwyd £'000 | Cyflawn-wyd £'000 | Amryw-iant £'000 | Cyfran (%) yr arbedion sy'n gylchol | Cyfran (%) yr arbedion a wnaed ar gyflogau |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus | 1,127 | 976 | -151 | 81 | 39 |
| Ymddiriedolaeth gyfan/corfforaethol | 287 | 287 | 0 | 65 | 100 |
| Iechyd a Llesiant | 279 | 271 | -8 | 100 | 63 |
| Gweithrediadau a Chyllid | 63 | 63 | 0 | 100 | 100 |
| Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG | 37 | 37 | 0 | 100 | 100 |
| Ansawdd, Nyrsio a'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | 20 | 20 | 0 | 100 | 100 |
| Pobl a Datblygu Sefydliadol | 19 | 19 | 0 | 100 | 100 |
| Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol | 14 | 14 | 0 | 100 | 100 |
| Pob un | 1,846 | 1,687 | -159 | 83 | 57 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad SAC o gynlluniau arbedion Iechyd Cyhoeddus Cymru

45 Yn sail i strategaeth gyllidebol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 mae cyfuniad o arbedion sy'n ymwneud â chyflog ac nad ydynt yn ymwneud â chyflog sy'n werth £2.196 miliwn i gyd. Mae arbedion cyflogau a gynlluniwyd yn cyfrif am draean o'r arbedion a nodwyd, o gymharu â thros hanner yn 2016-17, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn arbedion cyflogau cylchol a gynlluniwyd. Yn gyffredinol, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd y cynlluniau yn cyflawni 84% o arbedion cylchol eleni. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn y bydd cyflawni'r un lefel hanesyddol o arbedion yn mynd yn gynyddol anodd, yn enwedig lle mae isadrannau wedi dibynnu ar orgyflawni o ran arbedion sy'n ymwneud â chyflogau oherwydd oedi cyn recriwtio.

46 Tybir y caiff arbedion eu cyflawni mewn deuddegfedau cyfartal yn ystod y flwyddyn ond y gwir yw y cafwyd tangyflawni neu orgyflawni o ran arbedion mewn rhai cynlluniau yn gynharach yn ystod y flwyddyn. Mae lefel yr arbedion misol a gynlluniwyd wedi'i haddasu i adlewyrchu trywydd cyflawni mwy realistig tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud nifer o newidiadau i'w chynlluniau arbedion eleni ac wedi rhoi cynlluniau amgen ar waith lle mae cynlluniau yn methu â chyflawni, neu ddisodli'r rhain y canfuwyd nad oes modd eu cyflawni bellach. Er enghraifft, nid yw'r Is-adran Ficrobioleg wedi llwyddo i wireddu cynlluniau a gynlluniwyd ac mae cynlluniau arbedion amgen gwerth tua £500,000 wedi cael eu cynnig.

47 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cyflawni'r holl arbedion arfaethedig. Ar ddiwedd mis Hydref 2017, roedd ffurflen ariannol yr Ymddiriedolaeth i Lywodraeth Cymru yn dangos ei bod wedi cyflawni 55% o'r arbedion a gynlluniwyd ac a nodwyd yn y strategaeth gyllidebol, sef ychydig yn llai na'r 58% y bwriadodd yr Ymddiriedolaeth ei gyflawni erbyn yr adeg hon o'r flwyddyn. Serch hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei threfniadau cynllunio ariannol, ond gall heriau godi o ran cyflawni rhai cynlluniau arbedion pan fyddant yn golygu tynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliadau eraill

48 Erys y broses gynllunio ariannol yn rhan annatod o gylch cynllunio'r Ymddiriedolaeth ac mae partneriaid busnes cyllid a'r gweithlu yn parhau i gefnogi deiliad cyllideb fel rhan o'r broses gynllunio integredig. Yn 2016, daethom i'r casgliad fod y broses o bennu'r gyllideb yn gadarn ar y cyfan ac ar wahân i roi gweithdrefn i reoli niferoedd staff ar waith, yr un yw'r broses o hyd ar y cyfan. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth y weithdrefn ar gyfer rheoli niferoedd staff o ystyried maint yr arbedion a oedd yn ymwneud â chyflogau yn 2016-17. Caiff swyddi sy'n wag am chwe mis neu fwy eu dileu bellach o niferoedd sylfaenol isadrannau oni bai bod rhesymau dilys dros y swyddi gwag. Mae cyllidebau is-adrannol yn seiliedig ar wariant mis chwech yn y flwyddyn flaenorol, wedi'i addasu ar gyfer pwysau costau, targed effeithlonrwydd o 1% a thwf neu fuddsoddiad a gynlluniwyd. Mae'r broses hon wedi gweithio'n dda yn draddodiadol ond mae'r angen i nodi lefelau cynyddol o arbedion yn golygu y dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried dull mwy soffistigedig o nodi arbedion sy'n cefnogi arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy yn y tymor hwy.

49 Mae deiliaid cyllideb yn gyfrifol am nodi cyfanswm yr arbedion sydd eu hangen i gwmpasu pwysau costau a thargedau effeithlonrwydd. Yn 2017-18, roedd pwysau costau yn hafal i 1.9% o gynllun refeniw'r Ymddiriedolaeth. Roedd pwysau costau yn amrywio rhwng cyfarwyddiaethau, gan amrywio o 0.9% yn y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion i 2.6% yn y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau a Chyllid. Mae'r rhan fwyaf o ddeiliaid cyllideb yn gweithio ar y cyd â staff i nodi cyfleoedd i wneud arbedion a datblygu cynlluniau i'w cyflawni. Nododd yr Ymddiriedolaeth y caiff unrhyw arbedion nas cyflawnwyd eu cario ymlaen oni chaiff cyllidebau eu hailstrwythuro. Gallai rhai cynlluniau arbedion weithredu dros nifer o flynyddoedd gydag arbedion yn cael eu dosrannu rhwng blynyddoedd ariannol yn unol â hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i ddeiliaid cyllideb ddod o hyd i arbedion cylchol. Os yw deiliaid cyllideb yn dibynnu ar arbedion anghylchol ym mlwyddyn un, mae disgwyliad, erbyn mis chwech, y bydd yr isadran wedi datblygu cynlluniau amgen i gyflawni arbedion cylchol y flwyddyn nesaf.

50 Mae cyfarfodydd integredig rhwng deiliaid cyllideb a'r tîm Gweithredol i gynllunio a chraffu ar y gyllideb yn digwydd ym mis Tachwedd fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn y cyfarfodydd hyn, caiff cynlluniau cyllideb a chynlluniau arbedion arfaethedig eu herio o ran y risg i'w cyflawni a'r effaith debygol ar wasanaethau a ddarperir a'u hansawdd.

51 Canfu ein gwaith yn 2016 fod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar y gyllideb ar gyfer un isadran cyn hysbysu corff allanol o'i chynlluniau i dynnu cyllid yn ôl yn unol â gofyniad arbedion yr isadran. Yn y pen draw nid oedd yr isadran yn gallu tynnu'r £30,000 o arian yn ôl. Roedd disgwyl i'r isadran nodi arbedion amgen ond cafodd y diffyg ei wrthbwyso gan danwariant ar gyllideb yr isadran ar ddiwedd y flwyddyn.

52 Ar y pryd, gwnaethom argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth drafod cynlluniau i leihau cyllid neu ei dynnu'n ôl â sefydliadau allanol cyn pennu cyllidebau'n derfynol. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn nad oes modd bob amser ymgysylltu'n llawn â chyrff allanol ynglŷn â dadfuddsoddi. Mae nifer o gynlluniau arbedion ar gyfer 2017-18 yn dibynnu ar dynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliadau allanol. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2017-18, gofynnodd y tîm cyllid i ddeiliaid cyllideb y cynlluniau hyn gadarnhau'r canlynol ar gyfer pob cynllun:

- p'un a oeddent wedi trafod ac wedi cytuno ar swm y dadfuddsoddiad â'r corff allanol y bwriedir lleihau ei gyllid neu ei dynnu'n ôl;
- p'un a oeddent wedi paratoi cynllun dadfuddsoddi, gan gynnwys cyd-drafodaethau ynglŷn â dadfuddsoddi; a
- ph'un a oedd cyd-drafodaethau wedi cael eu cynnal, p'un a gyd-drafodwyd lleihad mewn cyllid neu p'un a benderfynwyd datblygu cynllun arbedion amgen.

53 Cafodd y tîm cyllid gadarnhad gan yr holl ddeiliaid cyllideb perthnasol eu bod wedi trafod ac wedi cytuno â lefel y cyllid i'w leihau neu ei dynnu'n ôl â phob parti perthnasol. Yn y dyfodol, bydd angen i ddeiliaid cyllideb roi tystiolaeth yn y cyfarfodydd ym mis Tachwedd i graffu ar y gyllideb bod y cwestiynau hyn wedi cael eu hateb cyn bod cyllidebau isadrannau wedi'u pennu'n derfynol.

54 Mae deiliaid cyllideb yn parhau i nodi risgiau i gyflawni'r arbedion a nodwyd mewn cynlluniau unigol cyn bod y broses o graffu ar y gyllideb yn dechrau. Mae'r tîm cyllid hefyd yn parhau i asesu'r risg sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbedion o ran ansicrwydd ynghylch p'un a ellir eu cyflawni a'r effaith ar wasanaethau. Caiff risgiau eu categoreiddio'n uchel, yn ganolig ac yn isel yn unol â'r meini prawf canlynol:

- mae arbedion risg uchel yn rhai lle nad oes cynlluniau wedi'u llunio'n llawn eto a lle mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch p'un a ellir eu cyflawni;
- mae arbedion risg canolig yn rhai sydd â chynlluniau wedi'u llunio'n llawn ond bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch gwerth yr arbedion neu a ellir eu cyflawni; ac
- mae arbedion risg isel yn rhai sydd â chynlluniau wedi'u llunio'n llawn ac y tybir y gellir eu cyflawni'n llawn.

55 Rhoddodd Cynllun Gweithredu Blynyddol 2017-18 yr Ymddiriedolaeth ddadansoddiad o faint o arbedion a oedd i'w cyflawni yn y saith cyfarwyddiaeth ac yn gorfforaethol, gyda thraean o'r arbedion yn cael eu categoreiddio'n rhai risg uchel. Lle mae'r risg o fethu â chyflawni arbedion yn uchel, disgwylir i ddeiliaid cyllideb nodi cynlluniau arbedion amgen cyn y caiff cyllidebau eu pennu'n derfynol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

56 Unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i gyllidebau is-adrannol a rhestrau staff is-adrannol gael eu cymeradwyo gan y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid a'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol.

## Erys trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwaith monitro gweithredol a throsolwg o'r perfformiad ariannol a chynlluniau arbedion yn gadarn; ond er bod gwybodaeth ar lefel y Bwrdd yn fanylach, cyfyngedig yw'r wybodaeth am ddefnyddio arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi

57 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer craffu ar berfformiad ariannol, gan gynnwys cynlluniau arbedion, yn sefydledig, gyda'r tîm cyllid yn monitro cyllidebau'n fanwl ac yn olrhain arbedion o fis i fis. Mae'r tîm cyllid wedi cynyddu'r broses o graffu ar berfformiad yn erbyn cyllidebau a chynlluniau arbedion ac mae bellach yn cofnodi'r rhesymau dros lithriant mewn ffordd fwy systematig. Eleni, nododd y tîm cyllid un unigolyn a fyddai'n gyfrifol am fonitro'r broses o gyflawni'r 53 o gynlluniau arbedion ar gyfer 2017-18. Mae'r cofnod olrhain ar gyfer monitro'r broses o gyflawni arbedion bellach yn cofnodi'r targedau arbedion diwygiedig, yn ogystal â'r targedau gwreiddiol a 'pherchennog' y cynllun yn hytrach na dim ond yr isadran neu'r gyfarwyddiaeth y mae'r cynllun yn berthnasol iddi. Mae'r lefel o graffu yn helpu i dargedu cymorth yn gynt a sicrhau bod cynlluniau arbedion amgen yn cael eu rhoi ar waith mor fuan â phosibl. Yn y cyfamser, mae'r tîm Gweithredol yn parhau i graffu ar y sefyllfa ariannol gyffredinol bob chwarter, gan gynnwys perfformiad cynlluniau arbedion unigol.

58 Yn 2016, nodwyd gennym fod fformat a chynnwys adroddiadau cyllid i'r Bwrdd yn ei gwneud hi'n anodd olrhain perfformiad yn erbyn y strategaeth gyllidebol, yn enwedig mewn perthynas â chynnydd yn erbyn arbedion a chynlluniau ailfuddsoddi. Edrychodd y tîm cyllid ar y ffordd y mae cyrff eraill yn y GIG yn llunio adroddiadau cyllid er mwyn gweld a fyddai'r fformat yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth. Gwnaeth hefyd weithio gyda chyfarwyddwyr anweithredol i nodi gwelliannau i'r wybodaeth ariannol a gyflwynir i'r Bwrdd.

59 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella cynnwys adroddiadau cyllid i'r Bwrdd, gan roi gwybodaeth fanylach am gyflawni arbedion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â llithriant; crynodeb o'r risgiau i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn; manylion am y gwariant cronnus yn erbyn y cynllun cyfalaf; a'r rhesymau dros danwariant neu orwariant ar gyllidebau cyfarwyddiaethau gydag arwydd o'r effaith ar wasanaethau a ddarperir neu eu hansawdd. Ceir rhagor o fanylion yn Arddangosyn 3. Mae'r adroddiad cyllid mwyaf diweddar i'r Bwrdd (Tachwedd 2017) hefyd yn crynhoi'r pethau allweddol y dylai aelodau'r Bwrdd roi sylw iddynt yn yr adroddiad.

60 Fodd bynnag, mae adroddiadau cyllid yn parhau i hepgor unrhyw naratif ynglŷn â chyflawni cynlluniau ailfuddsoddi a ariennir drwy arbedion ai peidio. Yn 2015-16, nododd strategaeth gyllidebol yr Ymddiriedolaeth gyllid gwerth £1.12 miliwn i gyd i'w ailfuddsoddi mewn rhaglenni gwella iechyd a oedd yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar, lles meddyliol, gordewdra ac atal smygu. Yn 2016, canfuom fod yr ailfuddsoddiad hwn yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar lefel gweithredu ond bod oedi cyn llunio'r cynllun ailfuddsoddi'n derfynol wedi arwain at oedi cyn recriwtio staff i ddatblygu ac arwain y rhaglenni gwaith newydd hyn. O ganlyniad, roedd tanwariant yng nghyllideb yr Is-adran Gwella Iechyd ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Fodd bynnag, dengys ein hadolygiad o'r adroddiadau cyllid a gyflwynwyd i'r Bwrdd rhwng mis Medi 2016 a mis Medi 2017 fod tanwariant cyson gan yr Is-adran Gwella Iechyd yn erbyn ei gyllideb oherwydd llithriant yn erbyn y rhaglenni ar gyfer y blynyddoedd cynnar, lleoliadau addysg ac atal gordewdra.

61 Yn y cyfamser, cafwyd cronfa ailfuddsoddi wrth gefn gwerth £1.24 miliwn i gyd yn 2016-17 a bwriadwyd iddi gefnogi nifer o flaenoriaethau ailfuddsoddi. Nid oes unrhyw wybodaeth yn yr adroddiadau cyllid i'r Bwrdd i nodi p'un a gafodd y blaenoriaethau ailfuddsoddi a nodwyd yn y strategaeth gyllidebol eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae tystiolaeth bod dwy o'r blaenoriaethau ailfuddsoddi – creu Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd a sicrhau bod swyddfeydd yn addas at y diben – wedi'u cyflawni yn seiliedig ar wybodaeth ym mhapurau eraill yr Ymddiriedolaeth a diweddariadau ar lafar i'r Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw'n cael adroddiadau ar yr ailfuddsoddiadau a ariennir drwy arbedion fel arfer. Fel rhan o'i chynlluniau i ddatblygu adroddiadau yn seiliedig ar werthoedd, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnwys gwybodaeth am enillion o fuddsoddiadau. Yn y cyfamser, dylai'r Ymddiriedolaeth ddangos p'un a yw'r arbedion y nodwyd y byddant yn cael eu hailfuddsoddi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (cyfanswm o fwy na £2 filiwn) wedi cyflawni'r buddiannau a fwriadwyd.

## Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ar drefniadau cynllunio a rheoli ariannol

62 Aeth yr Ymddiriedolaeth i'r afael â'r nifer fach o argymhellion a wnaed gennym yn 2016 ynglŷn â chynllunio ariannol ac adroddiadau ariannol. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth.

Arddangosyn 3: cynnydd ar yr argymhellion a wnaed yn 2016 ynglŷn â chynllunio ariannol ac adroddiadau ariannol

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| Pan fydd arbedion yn dibynnu ar leihau neu dynnu cyllid i sefydliadau allanol yn ôl, dylai'r Ymddiriedolaeth drafod ei chynlluniau â'r sefydliadau hyn cyn cwblhau cyllidebau'r gyfarwyddiaeth. | **Aed i'r afael â'r argymhelliad**<br>Er bod yr Ymddiriedolaeth o'r farn nad oes modd bob amser ymgysylltu'n llawn â chyrff allanol ynglŷn â lleihau cyllid neu ei dynnu'n ôl, mae'n ofynnol i ddeiliaid cyllid nodi risgiau dadfuddsoddi a llunio cynllun ar gyfer dadfuddsoddi, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cyd-drafodaethau lle y bo angen.<br>Cafodd y tîm cyllid gadarnhad gan ddeiliaid cyllideb eu bod wedi trafod ac wedi cytuno ar symiau dadfuddsoddi â sefydliadau allanol. Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb yn y dyfodol, bydd angen i ddeiliaid cyllideb roi tystiolaeth eu bod wedi trafod ac wedi cytuno ar lefelau o ddadfuddsoddi ac wedi rhoi cynlluniau ar waith. |
| Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod natur y risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbedion unigol yn cael eu cofnodi ar gyfer pob achos. | **Aed i'r afael â'r argymhelliad**<br>Cafodd natur y risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbedion unigol eu cofnodi a'u trafod ag isadrannau a chyfarwyddiaethau fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a'r broses graffu.<br>Mae'r timau cyllid yn parhau i asesu risg pob cynllun arbedion o ran y gallu i'w gyflawni ac os caiff cynlluniau eu categoreiddio'n rhai risg uchel mae'n rhaid i ddeiliaid cyllideb ddatblygu cynlluniau amgen. |
| Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cynlluniau (ail)fuddsoddi'n cynnwys digon o fanylion am gostau ac amserlenni mor gynnar â phosibl yn y broses o bennu'r gyllideb. | **Aed i'r afael â'r argymhelliad**<br>Mae cynigion ar gyfer buddsoddiadau a grëwyd o arbedion effeithlonrwydd yn destun proses graffu fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb, ond awgryma strategaeth gyllidebol 2017-18 fod llai o bwyslais ar greu cronfa fuddsoddi wrth gefn o arbedion. Yn hytrach, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio sicrhau y caiff ei hadnoddau eu hailfuddsoddi neu eu hailalinio i gefnogi ei blaenoriaethau strategol. |

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu fformat a chynnwys yr adroddiadau ariannol i'r Bwrdd er mwyn:<br>a. sicrhau bod gwybodaeth yn galluogi aelodau'r Bwrdd i olrhain perfformiad yn erbyn strategaeth y Bwrdd, gan gynnwys arbedion a buddsoddiadau;<br>b. rhoi sicrwydd nad yw ansawdd, diogelwch a darpariaeth gwasanaethau a rhaglenni gwaith yn cael eu heffeithio gan berfformiad ariannol; a<br>c. rhoi cysylltiadau gwell at y fframwaith cyflawni perfformiad yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | **Aed i'r afael â'r argymhelliad i raddau helaeth**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud newidiadau i'r adroddiadau cyllid a gyflwynir i'r Bwrdd, yn benodol:<br>• mae'r adroddiad bellach yn cynnwys tabl byr sy'n nodi targedau ariannol allweddol, gan gynnwys cyflawni arbedion a gynlluniwyd (arbedion targed a chronnus) a system risg coch melyn a gwyrdd;<br>• dadansoddiad manwl o gyflogau sy'n tynnu sylw at danwariant sylweddol;<br>• tybiaethau a risgiau i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn a rhoddir statws coch melyn gwyrdd;<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflwyno adroddiadau ar y sefyllfa ariannol yn ôl cyfarwyddiaeth, gan gynnwys naratif manwl ar gyfer y cyfarwyddiaethau hynny lle mae tanwariant neu orwariant yn y gyllideb ac arwydd o'r effaith ar wasanaethau a ddarperir a'u hansawdd;<br>• nodi'r gyllideb fesul cam ar gyfer y cyllidebau hynny nad ydynt wedi'u dosbarthu mewn deuddegfedau, ac sy'n adlewyrchu amseriad gwariant yn lle hynny;<br>• y fantolen a'r symudiad yn erbyn y balans agoriadol, yn ogystal â naratif ar y fantolen a'r llif arian parod; a'r<br>• gwariant cronnus yn erbyn y cynllun cyfalaf ar gyfer cynlluniau strategol a dewisol; nodwyd y rhesymau dros lithriant yn adroddiad cyllid Mis 11 2016-17 i'r Bwrdd.<br>Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau cyllid i'r Bwrdd yn cynnwys unrhyw naratif ynghylch a yw'r arbedion y nodwyd y byddent yn cael eu hailfuddsoddi wedi cael yr effaith a ddymunwyd ac wedi sicrhau'r camau gweithredu neu'r canlyniadau a fwriadwyd. |

# Mae'r Bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac yn adeiladu ar waith i wella'r trefniadau llywodraethu ond mae rhagor i'w wneud i ymestyn gwaith craffu ar berfformiad mewn meysydd allweddol

63 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli risg, llywodraethu gwybodaeth, adrodd ar berfformiad ac effeithiolrwydd y strwythurau llywodraethu a'r rheolaethau mewnol.Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion mewn blynyddoedd blaenorol. Nodir ein canfyddiadau isod.

## Mae gwelliannau parhaus i drefniadau rheoli risg yn dechrau cael effaith

64 Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Risg newydd yr Ymddiriedolaeth gan y Bwrdd ym mis Mai 2017. Mae'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff, disgwyliadau ynglŷn â hyfforddiant ym maes rheoli risg, sut y caiff risg ei chategoreiddio a phensaernïaeth risg, sef y lefelau gwahanol lle y rheolir risg yn y sefydliad o'r isadran i'r Bwrdd. Mae'r Weithdrefn Rheoli Risg ategol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mehefin 2017, yn amlinellu egwyddorion rheoli risg a'r ffordd y cânt eu cymhwyso drwy'r Ymddiriedolaeth gyfan. Mae hefyd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau swyddogion yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd a'i bwyllgorau mewn perthynas â chraffu ar y risgiau ar lefel strategol, corfforaethol, cyfarwyddiaeth ac is-adran a gofnodwyd ar y cofrestrau risg, a'u goruchwylio. Mae cofrestrau risg i'r sefydliad cyfan ar waith ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, iechyd a diogelwch a pharhad busnes.

65 Yn 2016, gwnaethom nodi bod gwaith i ymgorffori'r fframwaith rheoli risg ar lefel gweithredu yn parhau, gyda hyfforddiant i gefnogi'r broses o'i roi ar waith wedi'i atal dros dro tra bod y Prif Swyddog Risg newydd yn diwygio'r rhaglen hyfforddiant yn sgil adborth gan staff. Cyflwynwyd hyfforddiant ar system rheoli risg yr Ymddiriedolaeth yn ôl y bwriad ym mis Ionawr 2017 ar ôl diwygiadau i'r rhaglen hyfforddiant. Tybir bod unrhyw un sydd wedi cael yr hyfforddiant ers mis Ionawr yn aelod o staff sy'n ymdrin â risg. Mae aelodau o staff sy'n ymdrin â risg yn cynorthwyo'r perchenogion risg, sef y cyfarwyddwyr is-adrannol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Bwriedir cyflwyno hyfforddiant i berchenogion risg yn yr hydref, gan ddechrau gyda'r Tîm Gweithredol. Pan fydd perchenogion risg wedi cael hyfforddiant, disgwylir iddynt edrych ar effeithiolrwydd y rheolaethau ar gyfer lliniaru a gofnodir ar fframwaith sicrwydd y Bwrdd, yn ogystal â chofrestrau corfforaethol a chofrestrau cyfarwyddiaethau ac isadrannau.

66 Nid yw hyfforddiant ar reoli risg yn orfodol ond mae'r Bwrdd yn disgwyl i staff sydd â chyfrifoldebau penodol am reoli risg ymgymryd â'r hyfforddiant wyneb yn wyneb sy'n cael ei gyflwyno drwy'r Ymddiriedolaeth gyfan. Mae Canllaw i Reoli risg wrthi'n cael ei ddatblygu i ddechreuwyr newydd yn yr Ymddiriedolaeth fel rhan o'r broses ymgynefino. Yn y cyfamser, mae 'cwestiynau cyffredin' ar gael i staff drwy'r system DATIX.

67 Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod trefniadau rheoli risg wedi'u hymgorffori'n fwy effeithiol ar lefel cyfarwyddiaeth a bod ansawdd cofrestrau risg corfforaethau yn gwella. Mae'n amlwg o gofnodion cyfarfodydd ac arsylwadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau bod risgiau yn cael eu huwchgyfeirio a'u daduwchgyfeirio i fyny ac i lawr y sefydliad yn unol â'r gweithdrefnau rheoli risg. Hyd

yma, mae gwaith yr Ymddiriedolaeth i wella ansawdd cofrestru risg wedi canolbwyntio ar y cofrestrau risg corfforaethol a chofrestrau risg cyfarwyddiaethau yn hytrach na chofrestrau risg isadrannau. Mae rhagor o adnoddau o fewn y tîm risg a llywodraethu gwybodaeth yn helpu i roi cymorth mwy rheolaidd i'r staff sy'n ymdrin â risg yn yr isadrannau. Canfu adolygiad yr Archwilwyr Mewnol o drefniadau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth ar ddechrau 2017 eu bod yn rhoi sicrwydd rhesymol a bod rheolwyr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion yn llawn, gan gynnwys gwneud gwelliannau i ansawdd a fformat cofrestr risg Cyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion.

68 Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus bod ei threfniadau rheoli risg wedi aeddfedu o gymharu â dwy flynedd yn ôl. Bryd hynny, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi asesu bod ei threfniadau rheoli risg yn foddhaol. Mae'r Prif Swyddog Risg yn datblygu matrics aeddfedrwydd risg yn seiliedig ar ofynion safon rheoli risg ryngwladol ISO31000 er mwyn galluogi hunanasesu erbyn mis Mawrth 2018. At hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu metrigau perfformiad ar gyfer y system rheoli risg ac mae'n rhagweld y bydd yn barod erbyn mis Mawrth 2018.

69 Caiff cyfrifoldeb am oruchwylio a chraffu ar risgiau strategol a nodir yn fframwaith sicrwydd y Bwrdd ei ddirprwyo i bwyllgor priodol y Bwrdd. Noda ein harsylwadau yng nghyfarfodydd pwyllgorau yn ystod 2017 mai ychydig iawn o amser (5 munud) a neilltuir ar gyfer gwaith craffu ond mae'r Bwrdd yn cael ychydig mwy o amser (10 munud). Cydnabu'r Bwrdd fod angen i lefel y gwaith craff wella. Cytunodd i drafod fframwaith sicrwydd y Bwrdd yn gynharach ym mhroses y cyfarfod ochr yn ochr â'r adroddiadau ar berfformiad a'r adroddiadau cyllid, o ystyried bod llawer o'r camau lliniaru hefyd wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiadau ar berfformiad.

70 Mae ansawdd y wybodaeth a gofnodwyd yn fframwaith sicrwydd y Bwrdd yn gwella, gyda'r risgiau, eu hachosion a'u heffaith bosibl yn cael eu mynegi'n gliriach, ond mae nifer fach o fylchau mewn rheolaethau a sicrwydd. Yn ei gyfarfod mwyaf diweddar, cafodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol adroddiad a oedd yn crynhoi'r bylchau posibl mewn rheolaethau a sicrwydd ar gyfer pob risg strategol er mwyn helpu i lywio'r gwaith sydd ei angen i sicrhau bod rheolaethau yn effeithiol. Cyflwynir adroddiad clawr ar y cyd â fframwaith sicrwydd y Bwrdd, sy'n rhoi eglurder ynglŷn â'r diwygiadau a'r diweddariadau a wnaed ers i'r Bwrdd a'i bwyllgorau gyfarfod ddiwethaf ac mae newidiadau yn hawdd eu hadnabod yn y fframwaith ei hun. Rhoddir her briodol gan aelodau'r Bwrdd pan na fydd camau i liniaru risg wedi cael eu cymryd erbyn eu terfyn amser.

71 Er nad yw'r Bwrdd wedi mynegi ei awydd ei fentro eto, mae'n symud yn agosach at wneud hynny. Neilltuwyd sesiwn ddatblygu ddiweddar i'r Bwrdd ar gyfer rheoli risg a'r model awydd i fentro arfaethedig, gyda gwaith yn cael ei wneud i bennu awydd i fentro'r sefydliad.

72 Yn 2016, canfuom fod y risgiau strategol a gofnodwyd yn fframwaith sicrwydd y Bwrdd wedi'u cysylltu â'r blaenoriaethau strategol drwy rif cyfeirnod yn unig, gan ei gwneud hi'n anodd barnu p'un a oedd camau gweithredu, rheolaethau a sicrwydd yn briodol ar gyfer y risgiau. Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd gan Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â'n hargymhelliad.

Arddangosyn 4: cynnydd ar yr argymhelliad a wnaed yn 2016 ynglŷn â'r fframwaith sicrwydd

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut i wneud y cysylltiad yn un mwy amlwg, yn hytrach na dibynnu ar gyfeirnod yn unig, rhwng y blaenoriaethau strategol a'r risgiau strategol a gofnodwyd yn fframwaith sicrwydd y Bwrdd, er enghraifft, trwy atodi rhestr o'r blaenoriaethau. | **Aed i'r afael â'r argymhelliad**<br>Mae'r rhestr o flaenoriaethau strategol a nodir yng nghynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth bellach wedi'i nodi'n glir ar glawr blaen fframwaith sicrwydd y Bwrdd, sy'n rhoi eglurder i'r darllenydd. |

## Mae’r Bwrdd yn parhau i weithredu’n effeithiol ac mae’n parhau’n ymrwymedig i effeithiolrwydd sefydliadol a dysgu parhaus ond mae’r angen i lenwi swyddi anweithredol gwag yn mynd yn ddybryd

73 Erys yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw ac mae papurau pwyllgorau, ac eithrio papurau’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, ar gael yn gyhoeddus cyn cyfarfodydd. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a’r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn agored i’r cyhoedd bellach.

74 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i hwyluso presenoldeb a chyfraniad ail gynrychiolydd staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd a’i bwyllgorau (ac eithrio’r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth). Fodd bynnag, mae dwy swydd swyddog anweithredol yn wag. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn hyderus y byddai’n llenwi’r swyddi gwag hyn cyn diwedd 2017 ond aflwyddiannus fu. Mae’r swyddi gwag yn achosi risg o ychwanegu pwysau ar yr amser a roddir gan y swyddogion anweithredol presennol ar gyfer eu rôl i graffu a rhoi sicrwydd. Bydd y sefyllfa yn gwaethygu eto os bydd unrhyw oedi cyn recriwtio pan fydd trydydd swyddog anweithredol yn rhoi’r gorau i’w rôl yn ystod hydref 2018. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses recriwtio yn denu ymgeiswyr sy’n meddu ar y sgiliau a’r profiad angenrheidiol, a chaiff llwyth gwaith y Bwrdd a’i bwyllgorau eu hadolygu’n rheolaidd. Er gwaethaf y pryder na fu modd llenwi’r swyddi gwag hyn ar gyfer swyddogion anweithredol, mae’r broses recriwtio sy’n mynd rhagddi yn rhoi cyfle i’r Ymddiriedolaeth nodi cyfarwyddwr anweithredol newydd sy’n meddu ar sgiliau a phrofiad mewn meysydd angenrheidiol megis busnes a chyllid.

75 Yn 2016, gwnaethom nodi bod rhaglen o hunanasesiadau gan bwyllgorau yn mynd rhagddi, gan ddechrau gyda’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Cwblhawyd hunanasesiad y Pwyllgor ar ddechrau 2017. Canfu nifer o agweddau cadarnhaol yn ogystal â nodi sawl maes ar gyfer gwella. Roedd meysydd ar gyfer gwella yn cynnwys: proses ymgynefino effeithiol wrth ymuno â’r Pwyllgor; gwella gwybodaeth am bynciau penodol; sicrhau trosolwg priodol o systemau ar gyfer sicrwydd, megis archwilio clinigol a bod y pwyllgor yn craffu arnynt yn briodol; asesu ansawdd y wybodaeth a gyflwynir i’r pwyllgor; ac asesu’r ffordd y cynhelir cyfarfodydd er mwyn sicrhau y caiff amser ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Aed i’r afael â llawer o’r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Ym mis Medi 2017, cyflwynwyd y Cynllun Ansawdd ac Archwilio Clinigol i’r Pwyllgor am y tro cyntaf. Mae’r cynllun yn rhoi sicrwydd o ehangder yr archwiliadau cenedlaethol a lleol a gynhelir ym mhob rhan o’r Ymddiriedolaeth, gyda gwaith craffu manwl ar y cynllun a ddirprwywyd i’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu arolwg er mwyn asesu’r ffordd y cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd a’i bwyllgorau yn lle’r adborth ar lafar y gofynnir amdano ar hyn o bryd ar ddiwedd pob cyfarfod.

76 Ym mis Mawrth 2017, asesodd y Bwrdd ei effeithiolrwydd a nododd dri maes eang ar gyfer gwella, sef gwneud defnydd da o amser drwy ystyried y pethau cywir, cael sicrwydd ynglŷn â phob agwedd ar swyddogaethau a gwasanaethau’r Ymddiriedolaeth a sicrhau bod y Bwrdd yn weladwy i’r sefydliad ehangach, sydd wedi bod yn bryder ers peth amser. Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i deilwra rhaglenni ymgynefino ar gyfer swyddogion anweithredol newydd ac mae rhaglen o sesiynau datblygu yn cael ei llunio. Yn ei gyfarfod ym mis Medi, cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol y dylai hyfforddiant ar bynciau pwyllgorau penodol, megis caffael a gwrth-dwyll yn y GIG gael ei ymgorffori mewn rhaglenni ymgynefino ehangach i gyfarwyddwyr anweithredol. Mae gwaith yn

mynd rhagddo i gymryd y camau y cytunwyd arnynt, megis datblygu canllawiau ar baratoi papurau'r Bwrdd a'i bwyllgorau er mwyn sicrhau'r ansawdd a'r arddull briodol i helpu aelodau'r Bwrdd i wneud penderfyniadau.

77 Ar adeg ein gwaith archwilio, nid oedd dau o bwyllgorau'r Bwrdd wedi cynnal hunanasesiadau eto. Yn achos y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, cytunwyd i ohirio'r hunanasesiad yng ngoleuni newidiadau i aelodau'r pwyllgor. Cynhaliodd y Pwyllgor ei hunanasesiad ei hun ym mis Tachwedd; ar ôl trafodaeth ar y canfyddiadau cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu i'w drafod gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2018. Mae'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gymharol newydd o hyd ac mae cynlluniau ar waith i gynnal ei hunanasesiad blynyddol o effeithiolrwydd ar ddechrau 2018. O ystyried y ffactorau hyn, bwriedir cynnal yr adolygiad blynyddol o gylch gorchwyl pwyllgorau erbyn diwedd y flwyddyn ar ôl i Gadeirydd newydd yr Ymddiriedolaeth gael cyfle i adolygu aelodau a rhaglenni gwaith pwyllgorau.

78 Er mwyn gwella'r ffordd y cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau a'u heffeithiolrwydd, neilltuwyd amser ar agendâu'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar gyfer myfyrio ar y cyfarfod a chynnig cyfle i roi adborth. Mae arolwg byr i asesu'r ffordd y cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau bellach yn cael ei ddefnyddio yn lle'r adborth ar lafar y gofynnir amdano ar hyn o bryd.

79 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i asesu effeithiolrwydd sefydliadol ehangach a sicrhau dysgu parhaus. Yn 2016, comisiynodd y tîm gweithredol adolygiad allanol o'r Is-adran Sgrinio er mwyn edrych yn benodol ar strwythur a threfniadaeth yr is-adran. Er mwyn mynd i'r afael â'r 20 o argymhellion yn yr adroddiad, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi trefniadau rheoli prosiect ar waith ac yn sefydlu bwrdd prosiect (Sgrinio ar gyfer y Dyfodol), a fydd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus ac yn cynnwys rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd a chynrychiolwyr staff. Rhannwyd yr adroddiad a'r trefniadau rheoli prosiect arfaethedig â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ym mis Mai 2017 a chafodd y Bwrdd llawn ddiweddariad byr ym mis Tachwedd. Bydd y Bwrdd yn cytuno ar y trefniadau llywodraethu a sicrwydd ym mis Ionawr 2018.

80 Ym mis Hydref 2017, cynhaliodd Cymdeithas Ryngwladol y Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol adolygiad gan gymheiriaid ar gais yr Ymddiriedolaeth. Mae'r adolygiad gan gymheiriaid yn rhoi cyfle i 'gyfeillion beirniadol' asesu'r hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud a'r ffordd y mae'n gweithredu. Cafodd yr Ymddiriedolaeth adborth cychwynnol ar ôl yr ymweliad, y dywed ei fod yn gadarnhaol ar y cyfan. Disgwylir i'r adroddiad ffurfiol yn amlinellu canfyddiadau allweddol ac argymhellion gael ei gyhoeddi ar ddechrau 2018.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella rheolaethau mewnol ond nid yw'n gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol

81 Mae polisïau a gweithdrefnau cadarn yn un ffordd o liniaru risgiau. Yn 2016, cymeradwyodd y Bwrdd Weithdrefn Rheoli Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Eraill er mwyn sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth broses gadarn o ddatblygu, cymeradwyo ac adolygu polisïau a dogfennau rheoli. Mae'r tîm llywodraethu corfforaethol yn cynnal cofrestr ganolog o Bolisïau a Dogfennau Rheoli Eraill. Mae'r gofrestr yn rhoi cofnod cyfredol o'r holl bolisïau a dogfennau rheoli cymeradwy i'r sefydliad cyfan ac mae'n cael ei diweddaru'n barhaus. Cyflwynir y gofrestr bob blwyddyn i'r Bwrdd a chaiff darnau perthnasol eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgorau.

82 Asesir pob polisi a gweithdrefn sydd wedi mynd heibio i'w (d)dyddiad adolygu, neu sy'n 'cael ei (h)adolygu' yn ôl risg gan y swyddog arweinio a enwyd ar gyfer y polisi. Caiff canlyniad yr asesiadau hyn ei rannu â'r pwyllgor cymeradwyo priodol er mwyn ei hysbysu o'r risgiau a'r amserlen ar gyfer diwygio a diweddaru'r polisïau a'r dogfennau rheoli.

83 Canfu'r Archwilwyr Mewnol fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli polisïau a gweithdrefnau yn rhesymol. Cymerodd yr Ymddiriedolaeth gamau'n ddi-oed i fynd i'r afael â'r nifer fach o argymhellion ac mae'n gwneud cynnydd da i'w cwblhau.

84 Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ddull sefydledig o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion a wneir gan archwilwyr mewnol ac allanol. Caiff cynnydd yn erbyn argymhellion ei ystyried ym mhob cyfarfod a chaiff cyflymder y cynnydd ei herio'n aml. Weithiau, bydd y Pwyllgor yn gwahodd swyddogion i baratoi a chyflwyno adroddiadau manylach pan fydd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion yn cymryd mwy o amser na'r hyn a ragwelwyd a lle mae adroddiadau archwilio ond wedi rhoi sicrwydd cyfyngedig. Yn gynharach eleni, adolygodd y Pwyllgor fformat, ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth a gyflwynir yn y cofnod olrhain er mwyn asesu a oedd yn galluogi gwaith craffu a herio effeithiol. Mae adroddiad clawr bellach yn cael ei gyflwyno ar y cyd â chofnodion olrhain er mwyn tynnu sylw at newidiadau sylweddol neu benderfyniadau y gofynnir i'r Pwyllgor eu gwneud (ee estyn terfynau amser neu gau argymhellion am fod y camau gweithredu wedi'u cwblhau) yn ogystal â bwrdd arddangos syml er mwyn gweld symudiad yn erbyn terfynau amser ar gyfer camau gweithredu yn hawdd.

85 Ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n gwneud hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n adnodd effeithiol iawn ar gyfer canfod ac atal twyll a gordaliadau, a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd. Cyflwynodd y cyrff sy'n cyfranogi ddata i ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Hydref 2016 a rhyddhaodd y canlyniadau i'r cyrff sy'n cyfranogi ym mis Ionawr 2017.

86 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfranogwr gorfodol yn y Fenter. Ym mis Ionawr 2017, cafodd wybod am 1,819 o achosion o bara data drwy gymhwysiad gwe'r Fenter. Mae achosion o baru data yn tynnu sylw at anghysondebau a all, o'u hadolygu, helpu i nodi twyll a gwallau. Er na fyddem yn disgwyl i'r sefydliad adolygu pob achos o baru data, mae rhai o'r achosion wedi'u categoreiddio'n 'achosion o baru ddata a argymhellir'. Dyma achosion o baru data yr ystyrir eu bod yn risg uchel ac felly argymhellir y dylid eu hadolygu ar gam cynnar. Cafodd yr Ymddiriedolaeth wybod am 121 o achosion o baru ddata a argymhellir. Mae cymhwysiad gwe'r Fenter, sy'n cofnodi canfyddiadau adolygiad yr Ymddiriedolaeth o'i hachosion o baru data, yn dangos nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi adolygu unrhyw achosion o baru data tan fis Rhagfyr. Mae'n achos pryder mawr bod yr Ymddiriedolaeth wedi methu â gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol fel rhan o'i threfniadau i atal a chanfod twyll.

87 Cafwyd oedi tebyg yn ystod ymarfer paru data blaenorol y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2014-15 pan fethodd yr Ymddiriedolaeth â chwblhau pob adolygiad o'r achosion o baru data a argymhellwyd yn amserol. Roedd yr adolygiad o'r achosion o baru data a argymhellwyd ar gyfer cyfrifon taladwy eto i'w gynnal ym mis Mawrth 2016. Gallai'r achosion hyn o baru data helpu i nodi taliadau dyblyg. Bryd hynny, cafodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol sicrwydd y câi'r achosion o baru data a oedd yn weddill eu hadolygu. Ni roddwyd diweddariadau pellach i'r Pwyllgor, o bosibl am nad oedd y mater wedi'i gofnodi ar gofnod gweithredu'r Pwyllgor. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu rhoi data ar gyfer ymarfer nesaf y Fenter (2018/19) ym mis Hydref 2018. Rydym yn argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod yr achosion o baru data a ddaw o'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu a, lle y bo angen, yr ymchwilir iddynt yn amserol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn atgyfnerthu ei threfniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth ond ymddengys bod yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu yn gyfyngedig ac nid yw rôl y Swyddog Diogelu o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol wedi'i nodi yn y polisi newydd

### Bu cyflwyno'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn sbardun i ddiwygio polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth ond nid yw rôl y Swyddog Diogelu Data gorfodol wedi'i disgrifio eto

88 Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu ac ail-lunio'r Polisi Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE, a ddaw i rym o fis Mai 2018. Cymeradwyodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella y polisi ym mis Awst 2017 ac mae cynlluniau ar waith i asesu ei effeithiolrwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

89 Mae'r Polisi Llywodraethu Gwybodaeth yn cwmpasu amrywiaeth eang o elfennau, megis rheoli cofnodion, ansawdd data a gwybodaeth a storio gwybodaeth sensitif, y cwmpesir rhywfaint ohoni mewn polisïau a gweithdrefnau ar wahân ar hyn o bryd. Mae llawer o'r polisïau a'r gweithdrefnau yn parhau i gael eu hadolygu er mwyn sicrhau y caiff y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth ei symleiddio'n briodol a'i ategu gan y gweithdrefnau cywir i gefnogi'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. I'r perwyl hwnnw, roedd ymgynghoriad ag aelodau perthnasol o staff yn cael ei gynnal ar nifer o weithdrefnau, megis defnyddio gwasanaethau Cwmwl neu Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, tra roedd y rhai ar ryddhau gwybodaeth, rheoli cofnodion a rhestrau cadw wedi'u trefnu i ddilyn. Bydd llawer o'r camau gweithredu hyn yn mynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a nodwyd gan yr Ymddiriedolaeth.

90 Nodir rolau a chyfrifoldebau am lywodraethu gwybodaeth yn y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal Iechyd wedi cael ei ddynodi'n Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth â chyfrifoldeb am sicrhau y caiff risg gwybodaeth sefydliadol ei nodi'n briodol a'i rheoli a bod dulliau priodol o roi sicrwydd yn bodoli. Y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Wasanaethau Iechyd Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Meddygol yw'r Gwarcheidwad Caldicott sydd â chyfrifoldeb strategol am ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau a galluogi rhannu gwybodaeth. Mae trefniadau dirprwyo priodol ar waith os nad yw'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth na'r Gwarcheidwad Caldicott ar gael. Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a'r Gwarcheidwad Caldicott a'r rhai y dirprwyir cyfrifoldeb iddynt yn eu habsenoldeb yn cael hyfforddiant blynyddol fel un o ofynion y rôl.

91 Mae’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i benodi Swyddog Diogelu Data. Mae’r rôl hon yn gyfrifol am roi cyngor ar rwymedigaethau cydymffurfio o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a phan fydd angen asesiad o’r effaith ar breifatrwydd ac ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. Mae’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dangos i’r Tîm Gweithredol gytuno ar ddynodi’r Swyddog Diogelu Data. Fodd bynnag, rôl y Swyddog Diogelu Data, a’r safle o fewn strwythurau llywodraethu, yw’r unig rôl nas disgrifir yn y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth newydd.

## Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth yn gwella ond erys islaw lefelau hanesyddol

92 Cafodd y pecyn hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth ei adnewyddu’n gynharach eleni ac mae gwaith i ymgorffori gwybodaeth am y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth a’r gweithdrefnau cysylltiedig yn mynd rhagddo. Mae’n rhaid i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant sylfaenol ar lywodraethu gwybodaeth bob dwy flynedd ac mae hyfforddiant ychwanegol ar gael, yn dibynnu ar gyfrifoldeb unigolyn am ymdrin â gwybodaeth. Mae dechreuwyr newydd sy’n ymuno â’r Ymddiriedolaeth yn cael taflen ar lywodraethu gwybodaeth sy’n nodi’r pethau y bydd angen iddynt eu gwybod i’w galluogi i ddechrau yn eu swydd ac ymdrin â data’n briodol nes eu bod wedi cwblhau’r rhaglen e-ddysgu ffurfiol.

93 Yn ystod 2017, mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth wedi amrywio rhwng 77% ac 82% yn erbyn y targed o 95%. Gwnaethom sôn am gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth ddiwethaf fel rhan o’n gwaith asesu strwythuredig yn 2014, pan oedd cydymffurfiaeth yn uwch, sef 87%.

94 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i gefnogi risg a llywodraethu gwybodaeth a dechreuodd trydydd Rheolwr Risg a Llywodraethu Gwybodaeth yn ei swydd yn ddiweddar. Mae’r Rheolwyr Risg a Llywodraethu Gwybodaeth yn rhoi cyngor arbenigol i staff ar ddeddfwriaeth ym maes diogelu data; yn rheoli’r Gofrestr drafft o Asedau Gwybodaeth; yn ymdrin â Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth ac yn datblygu ac yn cyflwyno hyfforddiant ar bynciau sy’n gysylltiedig â llywodraethu gwybodaeth. Mae’r rheolwyr hyn yn cael eu hyfforddi i lefel tystysgrif ar ddiogelu data a Rhyddid Gwybodaeth.

## Mae hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth o’i threfniadau llywodraethu gwybodaeth yn dangos gwelliant sylweddol dros saith mlynedd ond nid yw rhywfaint o’r wybodaeth yn gyfredol, ac mae’r gwaith o ddatblygu’r Gofrestr Asedau Gwybodaeth bron â’i gwblhau

95 Mae’n rhaid i sefydliadau’r GIG asesu cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Caldicott bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth adnabyddadwy cleifion yn cael ei diogelu a’i bod ond yn cael ei defnyddio pan fo’n briodol gwneud hynny, yn ogystal â rhoi cynllun gweithredu ar gyfer gwella ar waith. Mae hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth, a ddefnyddiodd becyn cymorth Troi Egwyddorion Caldicott yn Ymarfer (C-PIP), yn dangos gwelliant sylweddol ers yr asesiad cyntaf yn 2010. Bryd hynny, cafwyd sgôr C-PIP o 47%, gan roi lefel annigonol o sicrwydd. Cafodd yr Ymddiriedolaeth sgôr C-PIP o 94% yn 2017, sy’n lefel ardderchog o sicrwydd.

96 Creffir ar asesiad C-PIP yr Ymddiriedolaeth gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn rhoi adolygiad annibynnol a sicrwydd bod sgôr yr hunanasesiad yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth yn gywir. Mae’n bwysig bod hunanasesiad C-PIP yr Ymddiriedolaeth yn gadarn am ei fod yn cael ei gyflwyno gyda phob cais i Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd yr Awdurdod Ymchwil Iechyd i gael cymeradwyaeth i ddefnyddio gwybodaeth adnabyddadwy cleifion heb

gydsyniad, o dan Adran 251 o Ddeddf y GIG 2006, y mae ei hangen ar yr Ymddiriedolaeth i lunio'r Gofrestrfa Ganser.

97 Mae ein hadolygiad o asesiad C-PIP yr Ymddiriedolaeth yn nodi y gallai'r wybodaeth a ddarparwyd yn erbyn rhai safonau fod wedi rhoi darlun mwy cywir. Er enghraifft, mae'r asesiad C-PIP yn nodi bod Polisi Rheoli Cofnodion cymeradwy a bod y polisi wrthi'n cael ei adolygu. Mewn gwirionedd, roedd yr adolygiad o'r Polisi Rheoli Cofnodion flwyddyn yn hwyr. Fodd bynnag, ni chafodd y wybodaeth hon ei chofnodi na'r wybodaeth bod yr Ymddiriedolaeth wedi asesu risg y polisi fel y'i nodir yn y Weithdrefn Rheoli Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Eraill ac wedi canfod bod y risg yn isel. Caiff y Polisi Rheoli Cofnodion ei ymgorffori yn y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn y pen draw, gyda gweithdrefnau ar wahân yn cael eu datblygu fel rhan o system rheoli gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth.

98 Mae'n bwysig bod yr Ymddiriedolaeth yn deall pa wybodaeth a ddelir ganddi er mwyn ei diogelu ac ymwela ar ei photensial. Mae mapio llifau gwybodaeth yn helpu sefydliadau i nodi a chofnodi'r risgiau wrth drosglwyddo a storio gwybodaeth adnabyddadwy person neu wybodaeth sensitif. Mae'r pecyn cymorth C-PIP yn gofyn a yw llifau gwybodaeth wedi cael eu mapio mewn ffordd hollgynhwysfawr ac a yw perchenogion asedau gwybodaeth wedi cael eu nodi. Yn 2015, gwnaethom nodi bod gwaith ar fapio llifau gwybodaeth yn mynd rhagddo a bod gwaith ar fapio asedau gwybodaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r 'Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Gyhoeddus' hefyd yn mynd rhagddo.

99 Mae asesiad C-PIP diweddaraf yr Ymddiriedolaeth yn dangos nad yw'r holl lifau gwybodaeth wedi cael eu mapio ond bod y gwaith bron â'i gwblhau a bod asedau gwybodaeth allweddol gan bob cyfarwyddiaeth yn cael eu nodi a bod asesiadau o'r effaith ar ddiogelwch data yn cael eu cynnal ar gyfer pob ased. Mae'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth, sef rhestr o asedau gwybodaeth a'r risgiau iddynt, yn ogystal â'r perchennog, bron â'i chwblhau a chaiff ei chyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella maes o law. Bydd y Gofrestr Asedau Gwybodaeth yn helpu'r Ymddiriedolaeth i ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Gyhoeddus a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae'r Polisi Llywodraethu Gwybodaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau am reoli asedau gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth yn glir.

100 Yn 2015, gwnaethom un argymhelliad mewn perthynas â llifau gwybodaeth. Mae Arddangosyn 5 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 5: cynnydd ar yr argymhelliad a wnaed yn 2014 ynglŷn â llywodraethu gwybodaeth

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn mapio llifau gwybodaeth mewn perthynas â gwybodaeth adnabyddadwy pobl ers yr ychydig flynyddoedd diwethaf ond canfu hunanasesiad mwyaf diweddar (2014) yr Ymddiriedolaeth yn erbyn Egwyddorion Caldicott nad oedd pob un o'r llifau gwybodaeth wedi'u mapio Dylai'r Ymddiriedolaeth symud i gwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2015. | **Argymhelliad bron â'i gwblhau**<br>Araf fu'r cynnydd tan yn ddiweddar o ran mapio llifau gwybodaeth a nodi asedau gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer diogelu data. Ystyriwyd y Gofrestr Asedau Gwybodaeth gan y Tîm Gweithredol yn ei gyfarfod busnes ym mis Tachwedd 2017. Caiff y Gofrestr Asedau Gwybodaeth ei chyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ei gyfarfod cyntaf yn 2018. |

## Mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth bellach ar waith

101 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi nodi diffyg cynnydd gan yr Ymddiriedolaeth o ran diwygio polisi diogelwch gwybodaeth y sefydliad. Hyd yma, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi dibynnu ar bolisi diogelwch gwybodaeth etifeddol tra'n aros i bolisi i Gymru gyfan gael ei ddatblygu a'i ryddhau. Yn 2017, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth o'r diwedd ddiwygio a diweddaru ei Pholisi Diogelwch Gwybodaeth. Cymerodd y Cadeirydd gamau i gymeradwyo'r polisi y tu allan i'r pwyllgor a disgwylid i'r penderfyniad gael ei gadarnhau yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ym mis Tachwedd. Os caiff y polisi diogelwch gwybodaeth i Gymru gyfan ei gyhoeddi, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cymharu'r ddau bolisi er mwyn sicrhau cysondeb a nodi unrhyw beth sydd wedi cael ei hepgor o bosibl.

102 Y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod trefniadau seiberddiogelwch ar waith. Y Prif Swyddog Risg sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y Polisi Diogelwch Gwybodaeth, gyda chyfrifoldeb penodol am reoli'r bobl a'r prosesau rheoli. Y Pennaeth Gwybodeg sy'n gyfrifol am reoli'r agweddau ffisegol a thechnegol ar ddiogelwch.

103 Cafodd y Polisi Diogelwch Gwybodaeth ei ddiwygio ar y cyd gan y Prif Swyddog Risg a'r Pennaeth Gwybodeg er mwyn cydnabod y gydberthynas rhwng y ddwy ddisgyblaeth. Caiff y Polisi Diogelwch Gwybodaeth ei ategu gan nifer o bolisïau a gweithdrefnau a chanllawiau i'r sefydliad cyfan, y caiff llawer ohonynt eu hadolygu a'u diwygio.

104 Caiff risgiau i ddiogelwch gwybodaeth eu rheoli o fewn y Polisi Rheoli Risg ac mae'r ffordd y caiff achosion sy'n ymwneud â gwybodaeth eu rheoli yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r Prif Swyddog Risg a'r Pennaeth Gwybodeg yn parhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau i wybodaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac nad oes yr un yn disgyn rhwng y ddwy ddisgyblaeth. Cynhelir cyfarfodydd misol yn benodol i drafod a mynd i'r afael â materion seiberddiogelwch.

105 Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn aros am ganfyddiadau adolygiad o seiberddiogelwch gan ei Harchwilwyr Mewnol a disgwylir asesiad Cymru gyfan o seiberddiogelwch yng nghyrff y GIG yn ddiweddarach eleni. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau eu diwygio os oes angen yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygiadau hyn a bod digon o adnoddau i ymdrin ag unrhyw bryderon a allai fod wedi cael eu codi. Yn y cyfamser, mae'r Ymddiriedolaeth yn estyn amddiffynfeydd seiber, yn datblygu profion ar yr amddiffynfeydd seiber sydd eisoes ar waith a, lle y bo gofyn, yn trefnu profion treiddio blynyddol ar ei chymwysiadau sy'n ymwneud â'r rhyngrwyd. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun adfer TG ar ôl trychineb, sy'n cynnwys amserlenni copïo wrth gefn a chydnerthedd er mwyn sicrhau y caiff copïau wrth gefn o ddata a gwybodaeth eu gwneud yn rheolaidd ac y gellir eu hadfer fel rhan o drefniadau parhad busnes ehangach.

106 Caiff hyfforddiant staff ar ddiogelwch gwybodaeth ei gwmpasu fel rhan o lywodraethu gwybodaeth a'i atgyfnerthu gan y tîm Risg a Llywodraethu Gwybodaeth a'r tîm Gwybodeg. Mae'r Prif Swyddog Risg a'r Pennaeth Gwybodeg yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch fel rhan o faterion llywodraethu gwybodaeth eang.

107 Yn 2014, gwnaethom un argymhelliad yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth, y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymdrin ag ef erbyn hyn. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: cynnydd ar argymhelliad a wnaed yn 2014 ynglŷn â llywodraethu gwybodaeth

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| Nid yw datblygiad arfaethedig polisi diogelwch TG i Gymru gyfan wedi digwydd ac mae polisi'r Ymddiriedolaeth yn bump oed. Dylai'r Ymddiriedolaeth asesu a yw'r polisi hwn yn dal i fod yn addas at y diben ac, os nad ydyw, ei ddiweddaru a'i ddiwygio neu ddatblygu polisi diogelwch gwybodaeth ar unwaith. | **Argymhelliad wedi'i gwblhau**<br>Cymeradwywyd y Polisi Diogelwch Gwybodaeth gan y tîm Gweithredol ar ôl ymgynghori â staff a rhanddeiliaid. Cymerodd y Cadeirydd gamau i gymeradwyo'r polisi y tu allan i'r pwyllgor yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth. |

Mae trefniadau ar gyfer trosolwg o lywodraethu gwybodaeth ar waith yn strategol ac yn weithredol ond ymddengys bod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith craffu yn gyfyngedig

108 Mae trefniadau ar gyfer trosolwg o lywodraethu gwybodaeth ar waith yn strategol ac yn weithredol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Weithgor Llywodraethu Gwybodaeth sefydledig a gadeirir gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth. Mae'r gweithgor yn cynnwys y Prif Swyddog Risg, y Gwarcheidwad Caldicott, y Rheolwyr Risg a Llywodraethu Gwybodaeth, y Pennaeth Gwybodeg a chynrychiolydd o bob cyfarwyddiaeth. Mae'r gweithgor yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r tîm Gweithredol ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth. Nodir ei gylch gwaith eang yn y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth ac mae'n cynnwys adolygu perfformiad yn erbyn pedwar dangosydd perfformiad allweddol, megis cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, a'r gofrestr risg llywodraethu gwybodaeth a TG i'r sefydliad cyfan.

109 Caiff risgiau i lywodraethu gwybodaeth a TG eu huwchgyfeirio a'u daduwchgyfeirio yn unol â pholisi a gweithdrefnau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth. Er enghraifft, mae'r risg na chaiff holl ofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol eu gweithredu erbyn mis Mai 2018 yn ymddangos ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Gofrestr Risg Llywodraethu Gwybodaeth. Mae perchenogion wedi cael eu neilltuo ar gyfer pob risg i lywodraethu gwybodaeth a TG ac mae cynlluniau gweithredu ar gyfer lliniaru risgiau a'r gofrestr risg yn cael eu cyflwyno i'r tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella bob chwarter.

110 Ym mis Mehefin 2016, cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i ddiddymu'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a throsglwyddwyd ei gylch gwaith i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Cytunodd y Pwyllgor ar ba bapurau llywodraethu gwybodaeth y byddai'n eu cael yn rheolaidd, sef yr Adroddiad ar Berfformiad Llywodraethu Gwybodaeth sy'n cynnwys y gofrestr risg a'r diweddariad ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu lefel uchel ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn seiliedig ar restr wirio Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Swyddfa'r Comisiynydd[1], tra byddai'n cael yr hunanasesiad C-PIP drwy eithriad.

[1] Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2017, **Preparing for the General Data Protection Regulation (GDPR): 12 steps to take now**

111 Mae'r amser a neilltuir ar gyfer craffu ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi lleihau. Mae dadansoddiad o agendâu cyfarfodydd rhwng mis Hydref 2016 a mis Awst 2017 yn dangos bod tua 13% o'r amser a oedd ar gael (heb gynnwys amser ar gyfer stori defnyddiwr gwasanaeth/staff) wedi'i neilltuo ar gyfer llywodraethu gwybodaeth. Cyn iddo gael ei ddiddymu, roedd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn treulio rhwng 75 a 90 munud ar fusnes y pwyllgor o gymharu â'r amser sy'n cael ei dreulio gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar gyfartaledd (17 munud). Pan roddwyd y cyfrifoldeb am lywodraethu gwybodaeth i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, roedd yn bwriadu asesu p'un a oedd ei lwyth gwaith yn dal i fod yn hawdd ei reoli. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi i hunanasesiad diweddar y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ganfod bod ei drosolwg o lywodraethu gwybodaeth wedi gwella ochr yn ochr â gwelliannau ym manylder ac ansawdd y wybodaeth a roddir iddo.

## Mae adroddiadau ar berfformiad yn gwella ond nid yw'r Bwrdd yn craffu ar bob rhan o fusnes yr Ymddiriedolaeth ac anaml y cyflwynir adroddiadau yn erbyn y cynllun gweithredu

### Mae adroddiadau ar berfformiad yn foddhaol ar y cyfan ond nid yw holl waith yr Ymddiriedolaeth yn cael ei gofnodi yn y Fframwaith Cyflawni, ac anaml y cyflwynir adroddiadau yn erbyn y cynllun gweithredu

112 Mae trefniadau ar gyfer monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau ar ddangosyddion allweddol o ran gwasanaethau, ansawdd ac adnoddau wedi'u nodi'n glir yng nghynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae nifer y dangosyddion perfformiad yn y Fframwaith Cyflawni (a llwybrau perfformiad) wedi cynyddu wrth i'r Ymddiriedolaeth fireinio dangosyddion gwasanaethau penodol, megis y rhai ar gyfer gwasanaeth sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen a chynnwys mesurau cyflawni GIG Cymru.

113 Mae adroddiadau ar berfformiad yn tynnu sylw'r Bwrdd at faterion allweddol tangyflawni. Mae'r byrddau arddangos yn dangos perfformiad yn erbyn llwybrau a gynlluniwyd a chaiff dangosyddion eu graddio drwy ddefnyddio'r system coch, oren, gwyrdd i ddynodi amrywiant yn erbyn targed. Mae data ar dueddiadau yn dangos perfformiad dros y 12 mis blaenorol gyda chrynodeb o berfformiad a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle y ceir tangyflawni.

114 Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith Cyflawni yn cynnwys mesurau o berfformiad ar elfennau pwysig o fusnes yr Ymddiriedolaeth eto, megis gwybodaeth iechyd, rhaglenni gwella iechyd cenedlaethol fel y 1000 diwrnod cyntaf, Gwella Ansawdd/1000 o Fywydau y GIG a Pholisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol. Mae hyn yn golygu nad yw rhai isadrannau na rhai cyfarwyddiaethau yn destun yr un lefel o graffu gan y Bwrdd neu ei bwyllgorau. Un o gamau'r cynllun gweithredu sydd i'w gymryd erbyn diwedd mis Mawrth 2018 yw adolygu a gweithredu dangosyddion perfformiad diwygiedig cyfarwyddiaethau, a allai wneud iawn am yr hepgoriad hwn. Ym mis Awst 2017, cafodd y Pwyllgor adroddiad byr ar gynnydd gan Wasanaeth Rhaglen Gwella 1000 o Fywydau er mwyn mesur ei weithgareddau a'u heffaith. Gofynnodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella am adroddiad ar raglen Ymchwil a Datblygu'r Ymddiriedolaeth ac ym mis Mai 2017, derbyniodd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar ymchwil a datblygu a oedd yn nodi trefniadau llywodraethu ymchwil a datblygu ac yn cynnwys adroddiad cynhwysfawr ar y gweithgarwch ymchwil presennol. Gofynnodd y Pwyllgor am i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys mesurau o effaith er mwyn dangos ansawdd a chyrhaeddiad gweithgareddau ymchwil a datblygu. Ym mis Ionawr 2018, roedd yr adroddiad ar berfformiad a

gyflwynwyd i'r Bwrdd yn cynnwys, am y tro cyntaf, berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a bennwyd gan Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru.

115 Dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn feirniadol o'r diffyg gwybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd mewn perthynas â chyflawni'r cerrig milltir a nodir yn y cynllun tymor canolig integredig a'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun gweithredu blynyddol. Nododd Canllawiau Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-2020[2] y dylai byrddau gael asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y cynllun tymor canolig integredig mewn sesiwn gyhoeddus o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Nid yw adroddiad ar gynnydd cyffredinol wedi cael ei roi'n gyhoeddus i'r Bwrdd eto. Fel y llynedd, mae'r cynllun tymor canolig integredig yn rhoi trosolwg o gyflawniadau allweddol yn erbyn blaenoriaethau strategol yn ystod 2016-17 ond mae'n anodd o hyd gysylltu cyflawniadau â'r amcanion a'r cerrig milltir penodol.

116 Mae'r Fframwaith Cyflawni yn cynnwys dangosydd i gyflwyno adroddiad ar gynnydd bob chwarter yn erbyn y cynllun gweithredu blynyddol gan ddefnyddio'r system coch melyn a gwyrdd. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth adroddiad ar gynnydd yn erbyn y camau lluosog a nodwyd yng nghynllun gweithredu 2016 am y tro cyntaf, a'r unig dro, ym mis Ionawr 2017 drwy nodi nifer y camau gweithredu a gwblhawyd. Nodwyd y rhesymau dros yr oedi mewn adroddiad eithriad manwl ar gyfer camau wedi'u codio'n 'goch', sef camau gweithredu heb eu cwblhau neu'r rhai ar ei hôl hi a'r rhai na fyddent wedi cael eu cwblhau o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt. Cyflwynwyd adroddiad ar gynnydd yn erbyn cynllun gweithredu 2017 ddwywaith, ym mis Gorffennaf 2017 a mis Ionawr 2018, gan ddefnyddio'r un dull gweithredu.

117 Mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff y cynllun tymor canolig integredig a'r cynllun gweithredu blynyddol eu cyflawni. Cyfarwyddwyr is-adrannol ac uwch reolwyr eraill sydd â'r cyfrifoldeb o hyd, a chânt eu dwyn i gyfrif gan dîm y cyfarwyddwyr gweithredol drwy gyfarfodydd adolygu perfformiad rheolaidd. Mae'r tîm gweithredol yn adolygu perfformiad mewn cyfarfod misol penodol ac mae cyfarwyddiaethau ac isadrannau hefyd yn adolygu perfformiad a chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu blynyddol mewn cyfarfod misol.

118 Y Bwrdd sy'n gyfrifol am drosolwg a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Bu ymgais i ddirprwyo trosolwg a chraffu i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ar gyfer y flaenoriaeth strategol 'o ddatblygu'r sefydliad'. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2017, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu sy'n ymdrin â'r gweithlu, gwybodeg a rheoli ariannol, i enwi ond ychydig. Cyflwynwyd adroddiad ar gynnydd yn erbyn camau gweithredol drwy ddefnyddio'r system coch, melyn a gwyrdd a ddisgrifir uchod ond hepgorwyd unrhyw adroddiad eithriad. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pam ei fod wedi cael yr adroddiad, o ystyried bod llawer o'r camau gweithredu yn ymwneud â swyddogaethau sefydliadol ehangach, a'r camau gweithredu yr oedd disgwyl iddo eu cymryd. O ganlyniad, cytunwyd y byddai'r tîm Gweithredol a'r uwch dîm rheoli yn cadw'r cyfrifoldeb am drosolwg o reoli perfformiad fel y'i nodwyd yn y cynllun tymor canolig integredig.

[2] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016), Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20, 2016/044

119 Mae’r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i ddatblygu adroddiad integredig ar berfformiad ac fel cam cyntaf, dygwyd ynghyd yr holl adroddiadau ar berfformiad yn un ddogfen ym mis Tachwedd. Am y tro cyntaf, mae’r adroddiad ar berfformiad yn cynnwys adrannau ar ansawdd ac effaith, pobl a datblygu sefydliadol a chynnydd dangosol yn erbyn amcanion llesiant y sefydliad. Mae’r adrannau ar ansawdd ac effaith a phobl a datblygu sefydliadol yn rhoi gwybodaeth nad yw’n cael ei chyflwyno fel arfer drwy’r Fframwaith Cyflawni. Mae rhai agweddau, megis rheoli cwynion, digwyddiadau a hawliadau a’r bwrdd arddangos ar gyfer pobl a datblygu sefydliadol, yn destun gwaith craffu rheolaidd gan bwyllgorau’r Bwrdd.

120 Mae’r adran ar ansawdd ac effaith yn rhoi crynodeb o amrywiaeth eang o systemau sicrhau ansawdd, gan gynnwys:

- cynnydd yn erbyn Cynllun Gwella Safonau Gofal ac Iechyd yr Ymddiriedolaeth o ran camau gweithredu a gwblhawyd ond nid yw’n glir pa gamau gweithredu sydd heb eu cwblhau eto, i ba safonau y maent yn gymwys, na pha mor gyflym y dylid ymdrin â hwy;
- crynodeb o adroddiadau sy’n ymwneud ag ansawdd gan yr Archwilwyr Mewnol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a’r cynnydd a wnaed o ran gweithredu ar argymhellion; a
- chrynodeb lefel uchel o brofiad defnyddwyr gwasanaethau.

121 Yn y cyfamser, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dangosyddion ansawdd ac effaith ar gyfer pob agwedd ar waith a swyddogaethau’r sefydliad fel rhan o’r broses o roi’r Fframwaith Ansawdd ac Effaith ar waith. Mae’r cynllun gweithredu yn nodi y dylai’r dangosyddion ansawdd ac effaith fod yn barod erbyn dechrau 2018-19. Yn y dyfodol, caiff y dangosyddion hyn eu monitro a chaiff adroddiadau eu cyflwyno arnynt bob chwarter fel rhan o drefniadau adrodd ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth.

### Mae storïau defnyddwyr gwasanaethau yn dod yn nodwedd reolaidd o gyfarfodydd y Bwrdd a chyhoeddwyd crynodeb o brofiad defnyddwyr gwasanaethau yn ddiweddar

122 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflwyno adroddiad ar y gwelliannau parhaus a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i’w threfniadau i geisio a rhannu profiad defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys sefydlu Panel Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Dysgu a phenodi swyddog arweiniol penodol ar gyfer profiad defnyddwyr gwasanaethau yn 2015. Mae storïau defnyddwyr gwasanaethau a staff wedi bod yn eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a’r Panel Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Dysgu ers 2014 ac mae storïau staff hefyd yn eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.

123 Yn y cyfamser, mae’r gwaith a ddechreuwyd y llynedd i gyflwyno storïau defnyddwyr gwasanaethau i’r Bwrdd bellach wedi’i gwblhau. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, cytunodd y Bwrdd ar ddull mwy strwythuredig o nodi storïau sy’n adlewyrchu amrywiaeth gwaith y sefydliad gyda defnyddwyr gwasanaethau, cymunedau lleol a phoblogaethau cyfan. Cytunodd y Bwrdd hefyd y byddai’n agor pob cyfarfod yn y dyfodol gyda stori am ddefnyddiwr gwasanaeth. Mae’r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda’r cyfarwyddiaethau i nodi a chreu storfa o storïau, boed yn gadarnhaol neu’n negyddol. Y nod yw defnyddio’r storïau ar bob lefel yn y sefydliad, yn ogystal â’r Bwrdd, er mwyn llywio’r broses o ddysgu a gwella sy’n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol neu bynciau dan drafodaeth.

124 Ym mis Tachwedd, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei adroddiad Crynodeb o Brofiad cyntaf i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i'w ystyried. Mae'r crynodeb yn nodi canfyddiadau o'r tri chwestiwn craidd a ddaw o Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Sicrhau Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau, y cytunodd yr Ymddiriedolaeth eu bod yn cynnig dull cyson o gasglu adborth gan yr amrywiol ddefnyddwyr gwasanaethau. Ni chaiff pob maes na swyddogaeth eu hadlewyrchu yn y crynodeb. Mae'r crynodeb hefyd yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion sydd wedi dod i law ac enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â hwy, canmoliaeth a roddwyd, a nifer y gweithgareddau ymgysylltu a'r ystod o weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd a oedd yn cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach. Hefyd, cafodd crynodeb byr o wybodaeth ei gynnwys am y tro cyntaf yn yr adroddiad ar berfformiad ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

125 Yn 2016, canfuom nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi penderfynu eto pa grŵp rheoli a fyddai'n cadw trosolwg ar gynnydd yn erbyn argymhellion a oedd yn ymwneud â'i harchwiliad ôl-weithredol o wersi a ddysgwyd o bryderon a hawliadau. Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â'r cam gweithredu hwn.

Arddangosyn 7: cynnydd ar yr argymhelliad a wnaed yn 2016 ynglŷn â'r fframwaith sicrwydd

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| Dylai'r Ymddiriedolaeth gytuno ar ba grŵp rheoli fydd yn cadw trosolwg ar y camau a argymhellwyd sydd wedi deillio o'r 'Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd o Ddigwyddiadau, Pryderon a Hawliadau' nes bydd pob cam wedi cael sylw a bod newidiadau wedi'u gwneud. | **Aed i'r afael â'r argymhelliad**<br>Mae'r Panel Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Dysgu yn rhoi trosolwg ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad o wersi a ddysgwyd a chaiff adroddiadau eithriad eu rhannu â'r tîm Gweithredol.<br>Yng nghyfarfod y Panel Profiad Defnyddwyr a Dysgu ym mis Mehefin 2017, cytunwyd i gynnal archwiliad arall yn 2018 er mwyn sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu a bod system Datix yn cael ei defnyddio i gofnodi'r holl wybodaeth ymchwilio perthnasol a'r gwersi cysylltiedig.<br>Parheir i adolygu cytundebau lefel gwasanaeth pan fydd angen eu hadnewyddu er mwyn sicrhau y nodir gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i bryderon, gan gynnwys yr angen i roi tystiolaeth o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau gweithredu a gymerwyd. |

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu weithredol i lywio ei strategaeth hirdymor, mae'n gwella'r ffordd y mae'n cynllunio'r gweithlu ac mae ganddi raglen wybodeg uchelgeisiol i gefnogi'r broses o gyflawni ei chynllun tymor canolig integredig ond nid yw wedi cytuno ar rai trefniadau allweddol eto na'u gweithredu

126 Ystyriodd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 ffactorau eraill a oedd yn galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, yn enwedig y rhai ar gyfer cynllunio'r gweithlu a rheoli ymgysylltu â rhanddeiliaid a TGCh a'r defnydd o dechnoleg. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio gwella'r ffordd y mae'n cynllunio'r gweithlu ac mae newidiadau i fwrdd arddangos datblygu pobl a datblygu sefydliadol yn helpu i wella'r broses graffu

127 Mae cynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth yn nodi ei huchelgais i ddatblygu strategaeth hirdymor i'r gweithlu er mwyn mynd i'r afael â ffurf a maint y gweithlu iechyd cyhoeddus y bydd ei angen dros y deng mlynedd nesaf. Ar yr un pryd, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau'r gweithlu ar lefel is-adran a chyfarwyddiaeth. Yn 2016, canfu'r Archwilwyr Mewnol fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu cynlluniau'r gweithlu ond yn rhoi sicrwydd cyfyngedig am fod rhai cynlluniau yn anghyflawn a bod cynnwys ac ansawdd y wybodaeth yn amrywio. Nid oedd gofynion y gweithlu yn y dyfodol yn seiliedig ar ddemograffeg y gweithlu neu anghenion y boblogaeth bob amser yn amlwg ac nid oedd pob un o'r cynlluniau yn amlwg wedi'u cysoni â blaenoriaethau strategol na'r amcanion a nodwyd yn y cynllun tymor canolig integredig. Canfu gwaith dilynol yr Archwilydd Mewnol yn 2017 fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn yr 11 o argymhellion a'i bod wedi gweithredu'n llawn ar bump ohonynt. Caiff templed cynllun gweithlu'r Ymddiriedolaeth ei ddefnyddio ond erys anghysondebau o hyd yn y ffordd y caiff ei gwblhau, er enghraifft, mae rhai cynlluniau yn methu â dangos y ffordd y caiff y gweithlu ei gysoni â blaenoriaethau strategol ac amcanion. Mae dadansoddiad manylach o'r wybodaeth am y gweithlu wedi'i gynnwys ond mae gwaith yn mynd rhagddo i fireinio gofynion yn y dyfodol yn seiliedig ar ddemograffeg y gweithlu, anghenion y boblogaeth ac ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid.

128 Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth broses adolygu newydd ar gyfer arfarnu a pherfformiad a datblygu o'r enw 'Fy Nghyfraniad' yn 2016. Mae 'Fy Nghyfraniad' yn gymwys i bob aelod o staff, heblaw staff meddygol a deintyddol sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sy'n cymryd rhan mewn proses arfarnu ar wahân. Daeth y cylch llawn cyntaf o broses 'Fy Nghyfraniad' i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Canfu arolwg staff GIG Cymru a gynhaliwyd yn 2016 fod 71% o staff yr Ymddiriedolaeth wedi nodi eu bod wedi cael arfarniad o berfformiad yn ystod y 12 mis diwethaf. Er bod cydymffurfiaeth wedi gwella ers 2013, sef 54%, mae'n dal yn methu'r targed o 85% ar gyfer GIG Cymru ond ceir cydymffurfiaeth o 100% ar gyfer arfarnu ac ailddilysu meddygol/deintyddol.

129 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y caiff y gweithrediad arfarnu yn y Cofnod Staff Electronig ei alluogi yn 2018-19, gan ddileu'r angen am ymarferion â llaw. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i fonitro cydymffurfiaeth mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol a thargedu camau gweithredu lle y bo'u hangen mwyaf. Canfu ein gwaith archwilio â thimau iechyd cyhoeddus lleol fod y staff yn gadarnhaol am 'Fy Nghyfraniad' a'u bod yn ymgysylltu â'r broses. Fodd bynnag, nid oedd amcanion personol na chynlluniau datblygu unigol yn cael eu rhannu â'r Ymddiriedolaeth, sy'n ei gwneud yn anodd llunio barn wrthrychol ar anghenion hyfforddiant a datblygu staff ar gyfer camu ymlaen yn eu gyrfa a llenwi bylchau mewn gallu ac adnoddau.

130 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau breision i wella ansawdd a fformat y wybodaeth am y gweithlu a gyflwynir i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, sy'n helpu i wella lefel y gwaith craffu a sicrwydd. Mae'r bwrdd arddangos ar gyfer pobl a datblygu sefydliadol yn rhoi amrywiaeth eang o fetrigau, gan gynnwys cydymffurfiaeth ag arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol, trosiant staff, yr amser a gymerir i recriwtio ac absenoldeb oherwydd salwch, yn ogystal â dadansoddiad o niferoedd staff, a rhyw, anabledd ac amrywiaeth ethnig. Mae'r bwrdd arddangos hefyd yn rhoi crynodeb o berfformiad a'r camau gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i wella perfformiad.

131 Mae cydymffurfiaeth â'r deg cwrs hyfforddiant statudol a gorfodol yn gwella'n araf; erbyn diwedd mis Tachwedd cafwyd cyfradd o 82% yn erbyn targed yr Ymddiriedolaeth, sef 95%. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y bydd cydymffurfiaeth yn cyrraedd 85%, sef targed GIG Cymru, erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Mae'n rhaid i staff ddefnyddio swyddogaeth hunanwasanaethu'r Cofnod Staff Electronig erbyn hyn ac mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei chyflwyno i staff pan fyddant yn mewngofnodi â'r system. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yr amlygrwydd cynyddol hwn yn ysgogi staff i gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. Yn y cyfamser, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn cydymffurfio.

132 Mae data o ffurflenni monitro ariannol cyrff iechyd i Lywodraeth Cymru yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn gwario llai o arian ar staff asiantaeth (meddygol ac anfeddygol) fel cyfran o gyfanswm ei gwariant na'r rhan fwyaf o gyrff eraill y GIG yng Nghymru. Yn 2016-17, gwariodd yr Ymddiriedolaeth 1.5% ar staff asiantaeth o gymharu â 4.7% ledled Cymru (yn amrywio o 0.9% i 10.1%). Gwnaeth gwariant yr Ymddiriedolaeth ar staff asiantaeth dreblu rhwng 2013-14 a 2016-17 o £423,000 i £1.1 miliwn. Roedd gwariant cronnus o £1.06 miliwn ar gyflogau asiantaeth erbyn mis 7 2017-18 o ganlyniad i anawsterau i recriwtio staff i swyddi microbioleg ymgynghorol. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr[3] yn nodi fframwaith rheoli newydd a rhestr o gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod GIG Cymru yn lleihau ei wariant ar staff asiantaeth a staff meddygol/deintyddol locwm. Mewn ymateb i'r Cylchlythyr, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei chynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru, a gymeradwywyd drwy weithredu'r Cadeirydd fel y'i nodwyd yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i atgyfnerthu prosesau ar gyfer cytuno ar wariant asiantaeth a gwariant locwm a threfniadau trosolwg a chraffu'r Bwrdd.

133 Dengys data hefyd fod yr Ymddiriedolaeth yn perfformio'n gymharol dda o ran lefelau absenoldeb oherwydd salwch o gymharu â chyrff iechyd eraill. Yn 2016-17, cafwyd cyfradd absenoldeb oherwydd salwch o 3.4% yn yr Ymddiriedolaeth, o'i chymharu â 5.2% ar gyfartaledd yng Nghymru (amrywio o

[3] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2017), **Addressing the impact of NHW Wales Medical and Dental Agency and Locum deployment in Wales**, 2017/42

3.4% i 7.1%). Er bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn is na chyfartaledd GIG Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn methu o ychydig â chyrraedd targed sefydliadol Llywodraeth Cymru, sef 3.25%. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun gweithredu i'r sefydliad cyfan ac wedi'i roi ar waith er mwyn gwella lefelau absenoldeb oherwydd salwch ac mae'n parhau i gynnal rhaglen o archwiliadau o absenoldeb oherwydd salwch, a ddechreuodd sawl blwyddyn yn ôl. Caiff y rhesymau dros absenoldeb oherwydd salwch eu monitro a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol hefyd, a'r rheswm mwyaf cyffredin a gofnodir yw 'pryder/straen/iselder/mathau eraill o salwch seiciatrig'.

134 Yn ystod 2016-17, roedd y cyfartaledd treigl dros 12 mis ar gyfer trosiant staff yn amrywio o 7.9% yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i 12.8% yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gwelwyd y trosiant staff uchaf ond un ymhlith cyrff y GIG yng Nghymru, sef 11.9%, sy'n uwch na'r targed sefydliadol o 10%. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio gwella ei dealltwriaeth o drosiant staff drwy gofnodi a dadansoddi gwybodaeth am y rhesymau dros adael, cyrchfan y rhai sy'n gadael a hyd gwasanaeth y rhai sy'n gadael. Yn y cyfamser, roedd yr amser a gymerir i recriwtio staff[4] i gyrff GIG Cymru yn amrywio o 54.2 diwrnod i 74.7 diwrnod yn ystod 2016-17. Y ffigur ar gyfer yr Ymddiriedolaeth oedd 64.7 diwrnod, sy'n welliant mawr ers 2013-14, pan gymerodd 97.1 diwrnod ar gyfartaledd i recriwtio staff. Mae'r data a gyflwynwyd yn y bwrdd arddangos mwyaf diweddar ar gyfer Pobl a Datblygu Sefydliadol yn dangos bod yr amser a gymerir i recriwtio yn parhau i wella ac ym mis Awst 2017 roedd yn cymryd 39 diwrnod.

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu weithredol i lywio'r broses o ddatblygu ei strategaeth hirdymor ac mae'n dal yn ymrwymedig i wella ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau

135 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth yn allweddol o ran helpu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei blaenoriaethau strategol a'i hamcanion. Dechreuodd gwaith ar strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth ar ddiwedd 2016 drwy nodi'r rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol y mae ymgysylltu â hwy yn rhan bwysig o'r broses o helpu i lunio a llywio ei strategaeth. Datblygwyd rhaglen ymgysylltu ar gyfer rhanddeiliaid allanol a mewnol.

136 Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn rhwng Cyfarwyddwyr Gweithredol unigol a rhanddeiliaid unigol yn Llywodraeth Cymru a'r gymuned ehangach, yn ogystal â Phrif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus y GIG. Yn ystod y cyfweliadau gofynnwyd am atebion i chwe chwestiwn lefel uchel ynglŷn â phrif swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth, y rôl y dylai ei chwarae yn y system iechyd cyhoeddus, y blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd y dylai fynd i'r afael â hwy a'r hyn y dylai neu na ddylai ei wneud neu'r hyn y gallai ei wneud yn wahanol. Drwy ymgysylltu o'r fath, canfu'r Ymddiriedolaeth fod diffyg dealltwriaeth o'i rôl. Serch hynny, mae llawer o randdeiliaid am ymwneud â'r Ymddiriedolaeth hyd yn oed ar ôl i'r strategaeth hirdymor gael ei datblygu.

137 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi mynd i gyfarfodydd grwpiau cymheiriaid y GIG er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broses o ddatblygu ei strategaeth hirdymor, gyda lefel yr ymgysylltu yn cael ei phennu yn ôl faint o amser a oedd ar gael ar gyfer rhyngweithio. Gwahoddodd yr Ymddiriedolaeth

[4] Mesurir yr amser a gymerir i recriwtio o'r adeg y gosodir yr hysbyseb nes bod pob gwiriad cyn cyflogaeth wedi cael ei gwblhau ac ers mis Ebrill 2016, mae'r mesurau hefyd yn cynnwys anfon llythyr cynnig diamod.

aelodau o grwpiau cymheiriaid y GIG i ymateb i'r un chwe chwestiwn lefel uchel a ofynnwyd i randdeiliaid eraill drwy arolwg ar-lein.

138 Er mwyn ennyn diddordeb staff yn y broses o ddatblygu'r strategaeth, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth grwpiau ffocws, sesiynau galw heibio a sesiynau 'cinio a dysgu'. Cymerodd tua 10% o staff o bob cyfarwyddiaeth a lefel ran yn y digwyddiadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod hyn yn gyfran gymharol fach o'i staff ond ystyriwyd bod y digwyddiadau wedi galluogi sgyrsiau mwy ystyrlon nag a fu'n bosibl yn y gorffennol. At hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu tudalennau gwe i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff, esbonio sut y gall staff gymryd rhan a rhoi dolen i arolwg ar-lein er mwyn cael adborth.

139 Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth arolwg ar-lein hefyd – Cadw'n Iach yng Nghymru – er mwyn canfod barn y cyhoedd ar yr hyn a fydd yn helpu pawb i fyw 'bywydau iachach, hapusach a hirach'. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Medi a mis Hydref a rhannwyd y canfyddiadau cynnar ag aelodau'r Bwrdd yn un o sesiynau datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.

140 Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r digwyddiadau ymgysyllltu hyn yn helpu i lywio trafodaethau ar y strategaeth hirdymor gan y Bwrdd a'r uwch dîm rheoli.

141 Comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o'i threfniadau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn 2016. Canfu'r adolygiad fod diffyg eglurder, cysondeb a chydlyniant o ran arfer ymgysylltu, a bod y diffyg eglurder hwn yn effeithio ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ymgysylltu ag unigolion a chymunedau. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion ac mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â llawer ohonynt fel rhan o'i chynllun tymor canolig integredig a'i chynllun gweithredu blynyddol. Cytunodd y tîm gweithredol i ymgymryd â gwaith ar dri maes cydgysylltiedig ar gyfer gwella, sef datblygu dull o ymgysylltu, ystyried dichonoldeb a chymhwyster system rheoli cydberthnasau â chleientiaid a nodi dull effeithiol o ddefnyddio adnoddau cyfunol ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu.

142 Fel pob un o gyrff y GIG, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ymgysylltu â'r cyhoedd o ran sut mae'n cynllunio ac yn darparu ei gwasanaethau, ei rhaglenni a'i swyddogaethau, yn ogystal â helpu unigolion a chymunedau i wella eu hiechyd a'u lles eu hunain. Ym mis Tachwedd 2017, cyflwynwyd papur i'r Bwrdd a oedd yn nodi dull ymgysylltu cyffredinol yr Ymddiriedolaeth, a ddatblygwyd gan staff o bob rhan o'r sefydliad. Mae'r papur yn nodi'r prif resymau dros weithgareddau ymgysylltu a'r camau craidd i'w cymryd wrth gynllunio gweithgaredd ymgysylltu effeithiol. Ymhlith y ffactorau eraill i'w hystyried fel rhan o weithgaredd ymgysylltu mae'r angen am gynrychioliaeth Cymru gyfan, p'un a all y gweithgaredd ymgysylltu barhau am gyfnod estynedig a'r angen i ddangos effaith gwaith ymgysylltu a sicrhau na chaiff niwed anfwriadol ei achosi i unigolion na chymunedau.

143 Mae gwaith i'w wneud o hyd i roi adnoddau neu ganllawiau ychwanegol ar y gwahanol fathau o weithgaredd ymgysylltu a nodi'r sgiliau sydd eu hangen wrth ymgymryd â'r ystod o weithgareddau ymgysylltu. O ystyried y cysylltiadau â Fframwaith Ansawdd ac Effaith yr Ymddiriedolaeth, cynigir mai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ddylai fod yn gyfrifol am graffu a throsolwg o'r dull ymgysylltu.

144 Yn y cyfamser, mae swyddog arweiniol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn gweithio'n ddiflino gyda sefydliadau yn y trydydd sector, gan sicrhau bod presenoldeb da yn y cyfarfodydd cyffredinol blynyddol gan gynnwys unigolion a sefydliadau'r trydydd sector o'r gymuned leol. Mae cymunedau lleol yn parhau i gyfrannu at ddatblygu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol. Helpodd grŵp cymunedol yn Sir Gaerfyrddin i ddylunio'r gwaith celf a thynnu sylw at y ffactorau negyddol a chadarnhaol sy'n effeithio ar iechyd a lles cymuned, a helpodd grŵp o bobl ifanc i ddatblygu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol i bobl ifanc.

## Mae rhaglen uchelgeisiol o ddatblygiadau gwybodeg yn yr arfaeth er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni'r cynllun tymor canolig integredig ond nid yw'r strategaeth ddigidol na'r trefniadau rheoli rhaglen wedi cael eu cymeradwyo na'u gweithredu eto

145 Cyhoeddwyd 'Iechyd a Gofal Gwybodus: strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddigidol ar gyfer Cymru' gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015. Y strategaeth yw gweledigaeth pum mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol yn y GIG a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn cefnogi'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer GIG a hwylusir yn ddigidol, disgwylir i bob un o gyrff y GIG ddatblygu rhaglen amlinellol strategol (RhAS)[5], a arweinir gan swyddog gweithredol lefel bwrdd a enwyd ac arweinydd clinigol sy'n atebol am gyflawni ac a gymeradwyir gan y Bwrdd. Bu'n rhaid i'r RhASau amlinellu safbwynt pum mlynedd ar ofynion buddsoddi ar gyfer technoleg a newidiadau i wasanaethau a hwylusir yn ddigidol o ran refeniw a chyfalaf, a fyddai'n helpu i gadarnhau gofynion o ran adnoddau i'w hystyried ym mhroses rhaglen gyfalaf Cymru gyfan.

146 Datblygodd yr Ymddiriedolaeth ei RhAS ar gyfer 2017-2021, a gyflwynodd i Lywodraeth Cymru. Mae'r gofynion cyfalaf a refeniw dangosol i ddarparu a thrawsnewid gwasanaethau digidol a gwybodeg a nodwyd yn y RhAS yn gwneud cyfanswm o £16.8 miliwn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i'r RhAS gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd cyn iddi gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Nid yw'r cyllid cyfalaf a refeniw sydd ei angen ar GIG Cymru wedi cael ei ddarparu'n llawn, sy'n golygu y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu'r rhaglen waith arfaethedig a nodir yn y RhAS. Mae'r gofrestr risg llywodraethu gwybodaeth a TG yn cynnwys y risgiau na fydd modd cyflawni'r datblygiadau na'r blaenoriaethau a nodwyd yn y RhAS a'r strategaeth ddigidol ddrafft ond mae bylchau o ran camau lliniaru.

147 Uchelgais yr Ymddiriedolaeth yw darparu systemau a gwasanaethau gwybodeg o'r radd flaenaf i'w staff a'u helpu i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf er mwyn gwella iechyd a lles pobl Cymru. Caiff meysydd cyflawni craidd a nodir yn y RhAS eu hadlewyrchu yng nghynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth a'i strategaeth ddigidol ddrafft. Dechreuodd gwaith ar y strategaeth ddigidol yn 2016. Fodd bynnag, bu oedi o ran pennu'r strategaeth derfynol tra roedd y tîm gwybodeg yn canolbwyntio ar symud i 2 Capital Quarter yn ystod hydref 2016. Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i geisio barn aelodau'r Bwrdd ar y strategaeth ddigidol fel y gellir ei phennu'n derfynol a cheisio cymeradwyaeth y Bwrdd.

[5] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20, Hydref 2016

148 Priodolwyd yr oedi wrth bennu'r strategaeth ddigidol derfynol hefyd i ad-drefnu timau gwybodeg er mwyn darparu un gwasanaeth integredig. Cwblhawyd y gwaith o ailstrwythuro gwasanaeth gwybodeg yr Ymddiriedolaeth ar ddechrau 2017. Mae bellach yn cael ei drefnu'n dri sector penodol, gyda thri swyddog arweiniol sector a reolir gan y Pennaeth Gwybodeg. Y tri sector yw: gwasanaethau gwybodeg a data; gweithrediadau TG; a datblygu systemau. Cyn ailstrwythuro, roedd yna ddau dîm gwybodeg a oedd yn cefnogi gwahanol rannau o fusnes a swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth.

149 Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid yn rhoi arweinyddiaeth ar y lefel weithredol a throsolwg rheoli o wybodeg ond nid yw'r arweinydd clinigol wedi'i nodi eto. Mae'r RhAS yn nodi bod angen sefydlu trefniadau llywodraethu ar gyfer cytuno ar ddatblygiadau a gwasanaethau gwybodeg a'u blaenoriaethu a rhoi trosolwg o'r broses gyflawni, yn ogystal â chyfrifoldebau penodol am asesu goblygiadau seiberddiogelwch i ddatblygiadau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg. Cynigir y dylid sefydlu Bwrdd Trawsnewid Digidol a arweinir gan wybodegwr clinigol; fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw derfynau amser diffiniol na chamau gweithredu y cytunwyd arnynt i weithredu ar y cynnig hwn.

150 Rydym wedi nodi nad yw dau argymhelliad o'n hadolygiad blaenorol o allu a seilwaith TG yr Ymddiriedolaeth yn cael eu holrhain mwyach gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ac na ellir barnu bod camau i fynd i'r afael â'r argymhellion wedi'u cwblhau. Roedd cau'r argymhellion hyn yn dibynnu ar weithredu strategaeth ddigidol yr Ymddiriedolaeth, ond o ystyried nad yw'r strategaeth wedi'i phennu'n derfynol eto, mae'r penderfyniad i nodi bod yr argymhellion hyn wedi'u cwblhau yn ymddangos yn gynamserol. Serch hynny, caiff yr angen i ddatblygu gwasanaethau hyfforddiant TG effeithiol a'r angen am wybodegwr clinigol, a fu'n sail i'n hargymhellion, eu hadlewyrchu yn y RhAS a'r cynllun tymor canolig integredig.

151 Gwnaeth ein hadolygiad o allu a seilwaith TG yr Ymddiriedolaeth yn 2015 argymell hefyd y dylai'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol staff ynghylch pa mor ddibynadwy a hawdd eu defnyddio oedd y systemau clinigol. Gwelwyd bod canfyddiadau negyddol yn deillio'n bennaf o'r ffaith bod nifer o wasanaethau cymorth technegol cyn symud i 2 Capital Quarter. Arweiniodd symud i'r swyddfa yn 2 Capital Quarter at adrefnu nifer y darparwyr cymorth TG, a'u lleihau o bump i ddau. Tîm gwybodeg yr Ymddiriedolaeth a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yw'r unig ddarparwyr cymorth TG erbyn hyn. Mae'r tîm gwybodeg yn nodi ei fod wedi cael canmoliaeth am y cymorth a roddir ganddo, ac mae'n priodoli hynny i'r penderfyniad i symud i Capital Quarter a lleihau nifer y darparwyr cymorth. Fodd bynnag, nid yw'r tîm wedi dechrau gofyn am adborth defnyddwyr mewn ffordd systematig eto, ond nodir bod yr adborth ar systemau penodol, megis system rheoli symudol AirWatch, yn gadarnhaol.

152 Caiff ystadegau perfformiad y ddesg wasanaeth TG eu cofnodi'n ddyddiol ac yn wythnosol, gan gynnwys gwybodaeth am ymatebion i ymholiadau dros y ffôn, drwy e-bost ac ymholiadau gwasanaeth. Ar hyn o bryd, nid oes dull ffurfiol o adolygu perfformiad y gwasanaeth gwybodeg a chaiff problemau o ran perfformiad eu trafod gan y Pennaeth Gwybodeg a'r Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid.

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion asesiad strwythuredig 2017

Arddangosyn 8: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion 2017 ac ymateb y rheolwyr.

| Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 Nid yw adroddiadau cyllid i'r Bwrdd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch a yw blaenoriaethu ailfuddsoddi a ariennir drwy arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn y strategaeth gyllidebol wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Felly, dylai'r Ymddiriedolaeth gynnwys gwybodaeth am berfformiad cynlluniau ailfuddsoddi drwy arbedion effeithlonrwydd yn ei hadroddiadau i'r Bwrdd. | Gall y Bwrdd graffu ar gynnydd yn erbyn cynlluniau ailfuddsoddi yn effeithiol. Gall y Bwrdd gael sicrwydd bod y cynlluniau ailfuddsoddi a ariennir gan arbedion wedi bod yn llwyddiannus. | Na | Do | I'w gynnwys o Fis 6 ymlaen wrth i'r buddsoddiad gael ei wneud. | 31/10/18 | Dirprwy Gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid |

| Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfranogwr gorfodol yn ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol ond nid yw wedi gwneud defnydd effeithiol o'r achosion o baru data a ddarparwyd ar gyfer 2016-17. Mae ymarfer paru data Menter Twyll Genedlaethol 2018-19 yn dechrau ym mis Hydref 2018 pryd y dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y data cyfatebol a gaiff o'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu a, lle y bo angen, yr ymchwilir iddynt yn amserol. | Caiff achosion posibl o dwyll eu canfod.<br>Caiff taliadau dyblyg a gordaliadau eu nodi a'u hadennill. | Na | Do | Diweddariad statws o ran yr adolygiad presennol:<br>• Cafwyd 118 o achosion o baru data credydwyr yr argymhellwyd y dylid eu hadolygu.<br>• Edrychwyd ar 95 ac nid oedd unrhyw broblemau.<br>• Roedd problemau gydag wyth, ond sylwyd ar y rhain drwy wiriadau eraill.<br>• Mae 15 yn weddill i'w hadolygu – Trafodion dyblyg yw'r rhain yn bennaf yn sgil uwchraddio Oracle ychydig flynyddoedd yn ôl (A11 i A12). Byddai'n ymddangos bod y trafodion dyblyg wedi codi o'r ffordd y cafodd y data eu hechdynnu, yn hytrach na'u bod yn daliadau dyblyg gwirioneddol. Mae'r rhain yn cymryd mwy o amser i fwrw golwg drostynt.<br>• Ni nodwyd yr un mater newydd yn ystod y broses.<br><br>Ar gyfer ymarfer paru data Menter Twyll Genedlaethol 2018-19 caiff cynllun gweithredu ei roi ar waith er mwyn sicrhau y cwblheir yr adolygiad ac ymchwilir i ddata yn amserol. | 31/03/18<br><br>31/01/19 | Dirprwy Gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid |

| Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 Mae Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE, a ddaw i rym o 18 Mai 2018, yn gwneud rôl y Swyddog Diogelu Data yn ofynnol. Fodd bynnag, nid yw Polisi Llywodraethu Gwybodaeth newydd yr Ymddiriedolaeth yn disgrifio rôl y Swyddog Diogelu Data, na'i safle o fewn strwythurau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi'n glir rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Diogelu Data a'r llinellau atebolrwydd sy'n gysylltiedig â'r rôl. | Mae eglurder ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau atebolrwydd y Swyddog Diogelu Data o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'i linellau atebolrwydd. | Ie | Do | Caiff hyn ei drafod yn y Grŵp Cynghori Rheoli ar Lywodraethu Gwybodaeth ar ddechrau mis Mawrth 2018 gyda'r nod o sicrhau dull gweithredu cyson.<br><br>Caiff y polisi diwygiedig ei ddiweddaru erbyn diwedd mis Mawrth 2018 ac yna ei gyflwyno i'w gymeradwyo mor fuan â phosibl. | Caiff y polisi ei ddiwygio erbyn diwedd mis Mawrth 2018 gyda'r nod o'i gymeradwyo erbyn diwedd mis Mehefin 2018. | Prif Swyddog Risg |

| Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 Cwblhaodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol archwiliad o drefniadau seiberddiogelwch yr Ymddiriedolaeth ar yr un pryd ag yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth newydd a'r gweithdrefnau ategol. Dylai'r Ymddiriedolaeth gymharu canfyddiadau'r Archwilwyr Mewnol â'r polisi newydd a'r gweithdrefnau ategol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau. | Mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth mor gyfredol â phosibl. | Ie | Do | Wedi'i gwblhau ac ni nodwyd unrhyw fylchau. | dd/g | Prif Swyddog Risg a'r Pennaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg |
| A5 Nid yw'r Fframwaith Cyflawni yn rhychwantu holl fusnes yr Ymddiriedolaeth. Felly, dylai'r Ymddiriedolaeth gytuno ar fesurau rhesymol ar gyfer y rhannau hynny o'r busnes nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y Fframwaith Cyflawni, megis Gwella Ansawdd/1000 o Fywydau y GIG, gwybodaeth iechyd a rhaglenni gwella iechyd cenedlaethol fel 'y 1000 diwrnod cyntaf', er mwyn galluogi'r Bwrdd i graffu arnynt, a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol â hynny. | Caiff bylchau yn y Fframwaith Cyflawni eu mapio'n llawn.<br>Caiff mesurau meintiol neu ansoddol eu datblygu a'u cynnwys yn y Fframwaith Cyflawni.<br>Gall y Bwrdd graffu'n effeithiol a chael sicrwydd ynglŷn â phob rhan o fusnes yr Ymddiriedolaeth. | Ie | Do | Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth newydd mae'r gwaith o gynllunio'r hyn sydd i'w gyflawni yn seiliedig ar bennu cynhyrchion clir y gellir eu mesur. Bydd y dull gweithredu cyson hwn yn sicrhau y cyflwynir adolygiadau ar berfformiad pob maes yn y sefydliad i'r Bwrdd. | 30/6/18 | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol, Pennaeth Strategaeth a Chynllunio, Rheolwr Perfformiad |

| Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 Mae'r Fframwaith Cyflawni yn nodi y bydd adroddiadau bob chwarter ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu blynyddol ond dim ond dau adroddiad cyhoeddus a gafwyd. Yn y cyfamser, mae Canllawiau Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-2020 yn nodi y dylai byrddau gael asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y cynllun tymor canolig integredig integredig mewn sesiwn gyhoeddus o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Felly, dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a. nodi'n eglur pa mor aml y bydd yn cyhoeddi adroddiadau yn erbyn y Fframwaith Cyflawni; a<br>b. pharatoi adroddiad yn nodi'r cynnydd cyffredinol yn erbyn cerrig milltir y cynllun tymor canolig integredig a'r effaith. | Gall y Bwrdd graffu ar gynnydd yn erbyn y cerrig milltir a nodwyd yn y cynllun tymor canolig integredig a'r cynllun gweithredu blynyddol yn effeithiol.<br>Gall y Bwrdd gael sicrwydd bod y cynlluniau wedi helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth ac wedi cael effaith. | Ie | Do | Mae hyn yn digwydd fel mater o drefn erbyn hyn. Mae'r Tîm Gweithredol yn cael diweddariad bob chwarter, ac yn edrych yn fanylach fel y bo'n briodol. Yna, caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Bwrdd. | Wedi'i gwblhau | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |

| Argymhelliad | | Canlyniad/<br>budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A7 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau ei Strategaeth Ddigidol ar gyfer datblygu'r cynigion a nodir yn y cynllun tymor canolig integredig a'r Rhaglen Amlinellol Strategol yn derfynol eto, gan gynnwys rhoi'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol ar gyfer trosolwg a chraffu ar waith. Yn y cyfamser, barnwyd bod argymhellion o'n harchwiliad blaenorol o allu a strwythur TG yr Ymddiriedolaeth yn gyflawn, a all fod wedi bod yn gynamserol o ystyried nad yw'r strategaeth wedi'i chwblhau'n derfynol eto. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a. fynd ati i gwblhau'r Strategaeth Ddigidol yn derfynol;<br>b. nodi swyddog arweiniol clinigol ar gyfer datblygiadau gwybodeg;<br>c. datblygu gwasanaethau hyfforddiant TG effeithiol; a<br>d. sefydlu'r Bwrdd Trawsnewid Digidol arfaethedig a chytuno ar ei gylch gorchwyl. | Mae Strategaeth Ddigidol gymeradwy y gellir asesu cyflawni'n llwyddiannus yn ei herbyn.<br>Mae staff clinigol yn ymgysylltu'n llawn â rhaglen wybodeg yr Ymddiriedolaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o fabwysiadu a defnyddio systemau digidol a ffyrdd o weithio newydd.<br>Mae staff yn cael hyfforddiant priodol ar systemau TG.<br>Caiff trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygiadau gwybodeg eu hegluro a chaiff datblygiadau eu blaenoriaethu. | Ie | Do | Mae'r Ymddiriedolaeth yn pennu ei Strategaeth newydd yn derfynol. Mae'n hollbwysig bod pob swyddogaeth sy'n galluogi yn cael ei chysylltu â hyn ac yn arwain fel y bo'n briodol. Penderfynwyd atal y gwaith a oedd yn mynd rhagddo dros dro ac rydym bellach yn gweithio drwy'r Strategaeth newydd a'i Blaenoriaethau er mwyn sicrhau y caiff y materion Digidol eu cynrychioli'n briodol mewn dogfen newydd. | 30/9/18 | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol a'r Pennaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.archwilio.cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru